Rhes. Simon Jones B.A.

Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 8. Rhif 9.] MEDI, 1908. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Ar Edyn Ffydd.
Allen Raine. *(Gyda Darlun.)*
Miss Jones, Gellifaharen.
Oddiar y Twr.
'Bywyd Iesu' gan Renan.
Ysprydd y Celt. Sarnicol.
Wythnos ar y Van. J. Hathren Davies.
Tair Wythnos ar y Van.
D. G. Rees, Penybont-ar-Ogwy.
Priodas. Marwgofion.
Manion ac Hanesion.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD

Golygwyr—

T. ARTHYR THOMAS, Llandyssul, a SARNICOL, County School, Abertillery.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s 6d y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidrrul drwy y *Post*.

Teleriau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau.

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygwyr erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed. Gyrer y Farddoniaeth i Sarnicol, County School Abertillery, Mon.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

YN EISIEU.

MORWYN Gymreig o 17 i 21, oed mewn teulu yn Lancashire. Manylion pellach o Swyddfa'r YMOFYNYDD.

TALIADAU.

E.J.J., Richmond Road, Llundain; Mrs. E., Esgerwenfawr; Mrs. J., Fronfelen; E.D., Aberdare; W.J., Cefncoed; S.E.B., Llwyneinion.

SIXPENNY EDITIONS

OF

Allen Raine's Novels

May be obtained of

J. D. LEWIS, GOMERIAN PRESS, LLANDYSSUL.

ROBIN THE NEW STARCH

Reckitt's Blue.

ZEBRA GRATE POLISH.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

" *Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda.*"—*Paul.*

CYFRES NEWYDD.] MEDI, 1908. [CYF. VIII. RHIF 9.

AR EDYN FFYDD.

DEIGRYN HIRAETH.

PAM yr wylaf am fy mhlentyn ?
Pam y cwynaf mor ddi-hedd ?
Pam na welaf drwy bob deigryn
Yr angylion wrth y bedd ?

Llifwch ddagrau, dagrau llonder,
Ymddisgleiriwch ar fy ngwedd ;
Golchwch ymaith niwl fy mhryder,
Mae angylion wrth y bedd.

Gwelaf, trwy y gawod drymaf
Lân enfysau wybren Hedd ;
Gwelaf, yn y dymestl chwerwaf,
Yr angylion wrth y bedd.

Fflamio, fflamio mae y cymyl,
A disgleiria bwrdd y wledd :
Gwelaf loewon edyn engyl
Yn modrwyo wrth y bedd.

Pam yr ofnaf swn yr afon ?
Nid oes mwyach fin i'r cledd :
Cân dy salmau, O fy nghalon !—
Mae angylion wrth y bedd.

Nid oes nos yn wybren Angau,—
Dydd sydd yno'n gwneud ei sedd,—
Dydd yn dyddio gan foreuau
Yr angylion wrth y bedd.

Ymaith, ofnau a phryderon,
Clywaf Grist yn siarad Hedd ;
Gwelaf fyddin ei obeithion
A'i angylion wrth y bedd.—W. ALVA RICHARDS.*

[*Allan o Bryddest Cadair Towyn, Meirionydd, Meh. 21, 1907.—Pwnc: " Yr Angylion wrth fedd Iesu."—Gweler " Ceninen " Awst, 1908.]

ALLEN RAINE.

Music when soft voices die
Vibrates in the memory—
Odours when sweet violets sicken
Live within the sense they quicken.—*Shelley.*

* Flowers o' the field, soft glories of God's sending,
Delights o' the road, the road we all are wending,
Dear wildings sweet the exile's memory aches for,
Scents o' the waste one's heart was like to break for ;
Now strew them o'er her, all their fragrance shed,
What she gave, living ; give me back now, dead.
—*Owen Rhoscomyl.*

Heddyw y mae Cymru oll mewn galar am Allen Raine—yr awdures athrylithgar sydd a'i llyfrau yn adnabyddus dros yr holl fyd, a'i geiriau wedi cyffwrdd miloedd o galonau, ag un fu byw, fel y ceisiaf ddangos yn yr erthygl fechan hon, mewn modd sydd yn esiampl i bawb.

Am amser maith cefais y fraint o fod yn gyfeilles fynwesol ac yn gydymaith i'r wraig ragorol hon, un a fu byw yn neillduedig mewn mangre lle câr y morfrain nythu, lle rhua'r dòn ar lan ysgythrog unig ; y fan lle cafodd y defnyddiau o ba rai yr hoffai wau ei chwedlau digymhar.

Yr oedd Allen Raine—neu Mrs. Beynon Puddicombe, fel y gelwid hi cyn i enwogrwydd ei hawlio fel awdures y

'WELSH SINGER'—

wedi hir deimlo fod angen yn bod am ystorïau iachus, a phan, yn ddiweddar yn ei hoes, y cymerodd ei hysgrifbin mewn llaw, ni ddefnyddiodd ef ond i ddesgrifio yr hyn sydd dda a phur.

Ymddangosodd ei ffugenw iddi mewn breuddwyd—yn yr hwn y gwelai y ddau air 'Allen Raine' yn sefyll mewn llythyrenau gwynion mawr wrth draed ei gwely. Yr oedd yr enw yn un swynol, ac yn mawr foddio ei phriod, felly penderfynodd ei fabwysiadu. Bydd ychydig ffeithiau parthed y nofeles boblogaidd yn ddyddorol i'r darllenwyr.

Merch ydoedd i Mr. Benjamin Evans, Cyfreithiwr, Castellnewydd Emlyn, a hi ydoedd yr hynaf o'r teulu. Yn foreu iawn dangosodd arwyddion o ddealltwriaeth amlwg. Plentyn tawel ydoedd, hŷn na'i hoedran, yn dal sylw ar bobpeth ac yn awyddus am wybodaeth ; oblegid meddwl ymofyngar oedd yr eiddo hi. Yr oedd ei dychymyg

---

* Danfonwyd y llinellau hyn gan yr awdwr i berthynasau Allen Raine ar achlysur ei marwolaeth yn nghyd a sypyn o flodau gwylltion.

yn hynod gryf, ac hoffai rodio wrthi ei hun, yn enwedig yn nghyfeiriad hen gastell ei thre enedigol, yno i freuddwydio am ogoniant ei orphenol. Yr oedd yr eneth yn hoff o gymdeithas yr hen bobl—y rhai a adnabyddid fel 'cymeriadau,—ac yr oedd llawer o honynt i'w cael yr amser hwnw, a hoff ganddynt oedd adrodd wrthi hanesion dieithr a rhyfedd y fro. Yr oedd yn hynod hoff o ddarllen, ac un o ddyddiau dedwyddaf ei hoes oedd hwnw pan rodd ei thad y '*Waverley Novels*' yn anrheg iddi, ac ni orphwysodd hyd nes darllen yr oll o'r



ALLEN RAINE.

pum' llyfr ar hugain. Yn naturiol cafodd Ada Evans addysg ragorol. Yn gyntaf cafodd ei danfon i ysgol yn Nghaerfyrddin. Nid oedd son am dren na modur yn y dyddiau hen ffasiwn hyny, a chofiai yn dda am ddiwrnod o auaf pan yr ataliwyd y *coach* mawr gan eira ar rôs Llangeler.

Mynodd ei thad, yr hwn oedd ysgolor gwych, fanteision addysg pellach i'w ferch. Anfonodd hi i Loegr o dan ofal y ddiweddar Mrs. Solly, priod dalentog y diweddar Barch. Henry Solly, gweinidog yr Undodiaid yn Wandsworth, ac arosodd gyda hi hyd derfyn cyfnod ei

haddysg. Blynyddau dedwydd iawn oedd y rhain i'r eneth ieuanc, a gwnaeth gynydd rhagorol yn ei hefrydiaeth. Enillodd serch ac ymddiriedaeth ei hathrawes, merched yr hon a fu'n gyfeillesau iddi drwy ei hoes.

Ar derfyn cyfnod ei haddysg cymerodd Mrs. Solly hi, ar gais ei rhieni, i Lundain, ac yno y bu am dymhor yn mwynhau llonder a llawenydd y Brifddinas, lle y daeth i gyffyrddiad â rhai o enwogion y dydd, megys George Eliot, George Henry Lewes, Mrs. Henry Wood, ac eraill.

Talai ymweliadau mynych â'i pherthynasau—teulu y diweddar Barch. Timothy Davies—yn Evesham, ac yno cafodd y cyfleusdra i gyfarfod â llawer o Undodiaid enwog y bu'n dra chyfeillgar â hwynt drwy ei bywyd. Haner can' mlynedd yn ol delai llawer o bobl ddyddorol iawn i

ARDAL CASTELLNEWYDD;

yr oedd ei hunigrwydd, ei golygfeydd hyfryd, a physg afon Teifi yn apelio'n gryf at chwaeth yr efrydydd, yr arlunydd, a'r pleser-deithiwr hefyd; felly yr oedd cymdeithas y dref yn hynod o dda ag ystyried mor wladaidd oedd yr amgylchedd; ac yr oedd yn dygymod yn gywir â chwaeth lenyddol y nofeles ddyfodol. Cyfranai erthyglau yn rheolaidd i gyfnodolyn a elwid '*Home Sunshine*'—cylchgrawn oedd yn ddyledus am ei fodolaeth i'r cylch athrylithgar a drigai yn y fro.

Tua'r blynyddau 1870-75 priododd Miss Evans Mr. Beynon Puddicombe, yr hwn, o ochr ei fam oedd aelod o deulu'r Leslies (Ysgotland) ac o ochr ei dad yn perthyn i deulu hynafol o Devonshire, yr hwn a ddaliai y swydd gyfrifol o ysgrifenydd tramor mewn ariandy yn Llundain. Ni bu teulu iddynt, a buont fyw bywyd nodedig o hapus—yn unig amharwyd ar eu dedwyddwch gan afiechyd difrifol dan yr hwn y dioddefodd am bymtheng mlynedd. Yn nghaethiwed ei hafiechyd cafodd hamdden ddigon i fyfyrio'n dawel; ac fel y mae ei llyfrau'n tystiolaethu, gwnaeth y goreu o'i hamser, er mai mewn llawer o flynyddau ar ol hyn yr ymddangosodd y '*Welsh Singer*.'

Mewn amser cafodd Mr. Puddicombe flwydd-dâl sylweddol, ar yr hwn yr ymneillduodd o'i swydd, yn gyfiawn falch o boblogrwydd cynyddol ei briod, fel y delai llyfr ar ol llyfr o'i hawduraeth allan o'r wasg. Ond daeth clefyd anwelladwy i'w orddiwes, a phenderfynasant roddi i fyny eu hen gartref, a dychwelasant i Gymru, i dŷ ar làn y môr a adeiladesid ganddynt i fyw ynddo yn yr haf. Bu farw Mr. Puddicombe yn mhen saith mlynedd, ac ni fu ei briod byw ond ychydig amser ar ei ol. Fel gorwyres y Parch. David Dafis, Castell Hywel, hanai Allen Raine o deulu Undodaidd, a phroffesai y gredo hono ei hun. Mawr edmygai Dr. Martineau, ac edrychai ar ei lyfr emynau gyda pharch ymylai ar addoliad; ei hoff emyn, a ddarllenid iddi yn aml, ydoedd, 'When for me the silent oar,' &c., gan Lucy Larcom (gweler 'Perlau Moliant,' emyn 220).

Yr oedd yn ddynes o deimlad crefyddol dwfn; dechreuai bob dydd drwy gadw dyledswydd deuluaidd, ac enillodd serch yn ogystal a pharch ei theulu. Yr oedd yn hollol gyfiawn yn yr hyn a wnai a'r

hyn a dd'wedai—bywyd ac nid credo oedd o bwys yn ei golwg hi. Yr oedd yn gas ganddi ffurfiau a seremoniau, a hoffai symledd yn mhob peth. Yr oedd ganddi farn bendant ar y rhan fwyaf o bynciau —a byddai yn gweithredu neu yn peidio gweithredu yn ol hyny; gwyddai ei meddwl ei hun, ac nis newidiai ef yn aml. Yr oedd Mrs. Puddicombe o duedd dawel, yn hoffi llonyddwch. Yr oedd yn llawn cydymdeimlad at bawb, ac yn barod i faddeu ffaeleddau eraill; yr oedd yn ddynes hynod o fwyn a thyner ei chymeriad—y fwynaf a'r dyneraf a gyfarfyddais erioed. Yr oedd o anian heddychlon a didwrf; nis gadawai i ddim dori ar ei thawelwch; nis caniatai i bethau bychain ei chythryblu, a phriodolai barhad ei hieuenctyd i'r ffaith hon. Fel pob un gwir fawr, yr oedd yn hynod o ostyngedig, ac ni choleddai farn uchel am ei galluoedd ei hun.

Yr oedd yn gerddores wych, yn gwybod amryw ieithoedd, ac yn hoff o flodau, yn enwedig y rhai gwylltion, a'r rhai nas chwilir am danynt yn fynych. Gwyddai enw gwyddonol pob llysieuyn a gyfarfyddai ar y maes. Cymerai ddyddordeb mewn daeareg hefyd, ond tri pheth nis ymhoffai ynddynt—seryddiaeth, archadeiladaeth, ac fel mae'n hynod i feddwl, cerddoriaeth gysegredig. Nid oedd ganddi fawr o feddwl o'r fenyw newydd; yr oedd o'r farn mai'r aelwyd yw cylch priodol merch.

Ni fyddai hanes Allen Raine yn gyflawn heb grybwyll

Ei Serch at Anifeiliaid.

Carai y creaduriaid mud â chariad oedd braidd yn angherddol. Cafodd 'Y Gymdeithas er Atal Creulondeb at Anifeiliaid' gefnogaeth frwdfrydig ganddi; ac efallai nad yw yn hysbys i lawer fod ei hewythr, y Parch. David Dafis, Castellnedd, mab yr hen Ddafis o Gastellhywel, yn un o sylfaenwyr y Gymdeithas; ac efe fu'r cyntaf i ddeffro ei chydymdeimlad, pan yn eneth fechan yn yr ysgol, at greaduriaid mudion. Yr oedd yn cymeryd dyddordeb dwfn yn y mudiad i atal arbrofion ar anifeiliaid byw gan y meddygon; tynai dioddefaint y creaduriaid mudion y dagrau i'w llygaid. Pan oedd Ada Evans yn crwydro drwy gaeau a llwybrau ei bro enedigol, nis breuddwydiodd am y dyfodol disglaer oedd o'i blaen yn y cymeriad o Allen Raine, un o nofelesau mwyaf poblogaidd yr ugeinfed ganrif (gweler y 'Bookman' am fis Mawrth), ac y mae Cymru yn falch o'i merch athrylithgar.

Yr oedd ei blynyddau olaf yn brudd a galarus, a llawn o boenau a ddioddefodd gyda dewrder y gwir Gristion; cadwodd ei ffydd hi yn siriol ar aml i ddiwrnod garw. Yn mynwent unig Eglwys Penbryn —man tawel, lle tŷf blodau gwylltion bryniau garw glân Ceredigion, lle clywir rhu y dòn a dolef gwyntoedd y gorllewin, a chri y wylan welw yn treiddio'r awyr gymylog—yr huna Allen Raine. Gorphwysed mewn hedd. Ffarwel iddi—am enyd awr.

Gellifaharen. K. Jones.

[Dymunir cydnabod yn ddiolchgar Mri. D. Duncan & Sons, perchenogion y *South Wales Daily News*, Caerdydd, am eu caredigrwydd yn rhoddi benthyg y darlun o Allen Raine sydd yn gysylltiedig â'r erthygl uchod.—Gol.]

ODDIAR Y TWR.

PAN yn ymddyddan a'r Phariseaid a'r ysgrifenyddion un tro, defnyddiodd Iesu y geiriau canlynol: "Gwae chwi, ysgrifenyddion a Phariseaid, ragrithwyr! canys yr ydych yn adeiladu beddau y prophwydi, ac yn addurno beddau y rhai cyfiawn; ac yr ydych yn dywedyd, Pe buasem ni yn nyddiau ein tadau, ni buasem ni gyfranogion â hwynt yn ngwaed y prophwydi. Felly yr ydych yn tystiolaethu eich bod yn blant i'r rhai a laddasant y prophwydi. Cyflawnwch chwithau hefyd fesur eich tadau." Y mae yn agos i ddwy fil o flynyddoedd er pan lefarwyd y geiriau uchod. Dan effaith pregethiad Efengyl Iesu Grist—Efengyl sydd â

Rhyddid a Chariad

yn elfenau hanfodol o honi—naturiol fyddai'r disgwyliad fod y cyflwr a ddesgrifir ganddynt wedi ei yru o fodolaeth, ac nad oes ynddynt un dyddordeb i ni heddyw ragor nag a feddant fel hanes. Ond gan yr hwn a sylwa ar arwyddion yr amserau hyn—dechreu'r ugeinfed ganrif—gellid, gydag ychydig gyfnewidiadau geiriol, eu defnyddio fel desgrifiad cywir o lawer o'r hyn a gymer le yn barhaus mewn rhyw gŵr neu gilydd o'r byd crefyddol. Beiai'r Phariseaid y rhai a laddasant y prophwydi. Ac eto yr oeddent hwy eu hunain yn euog o'r un trosedd—erlid (a lladd yn y diwedd) un o'u prophwydi mwyaf—Iesu o Nazareth. Beia'r anghydffurfwyr y rhai a garcharasant neu a ddienyddiasant neu a losgasant y tadau yn y ffydd Brotestanaidd; ac eto, y maent hwy eu hunain, yn y dyddiau hyn, yn euog o'r un pechod—erlid y rhai ydynt yn

Brophwydi Pethau Gwell.

Y mae bron pob pregethwr ieuanc a anturia droi'r hen gredoau o'r neilldu, a chyhoeddi'r gwirionedd yn ngoleuni'r wybodaeth berffeithiach sydd, yn ystod y ganrif ddiweddaf, wedi gwawrio ar y meddwl dynol, yn agored i bob math o benydiau. Fe'n harweiniwyd i ysgrifenu fel hyn gan y penderfyniad canlynol a basiwyd yn ddiwedddar gan Undeb Gweinidogion Bedyddiol Cwm Rhondda:—"Ein bod yn awdurdodi ein hysgrifenydd i anfon at ysgrifenydd Undeb Bedyddiol Cymru yn gwrthdystio yn erbyn iddo ddefnyddio'r *Hauwr* i wasgaru gwenwyn materoliaeth ac uwch-feirniadaeth." Misolyn Bedyddiol yw'r *Hauwr*, dan olygiaeth y Parch. D. Powell, gweinidog Bedyddiol yn Lerpwl. Y mae Mr. Powell, fel y mae yn amlwg i ddarllenwyr y cyhoeddiad a enwyd, wedi ei gyffwrdd gan yr

Yspryd Newydd

sydd yn gwthio ei hun i fewn i'r Eglwysi; ac y mae, dan arweiniad yr yspryd hwn, wedi agweddu llawer o'r hyn a elwir yn gyffredin yn

iawnffyddiaeth ; neu, nid yw, bellach, yn pregethu'r athrawiaethau fuont, gynt—ac ydynt eto yn y rhan fwyaf o Eglwysi—yn faich cenadwri y pwlpud. Sut y medr beidio gwneud hyn—sut y medr un dyn meddylgar beidio gwneud hyn—pan y mae goleuni gwell, ardderchocach, ar bynciau mawrion bywyd ac angeu yn dysgleirio o'i amgylch yn mhob cyfeiriad. Ond o braidd y mae angen dyweyd nad oes un sail i'r cyhuddiad ei fod yn gwneud defnydd o'r misolyn a olygir ganddo i daenu syniadau materyddol. Ac y mae'r haeriad ei fod yn gwneud hyny—haeriad a wneir yn y penderfyniad uchod—yn amlygu anwybodaeth ddygn ar du'r gwrthdystwyr o ystyr y gair materoliaeth. Gan nad pa gyhuddiad ellir ddwyn yn erbyn y ddysgeidiaeth newydd a ledaena mor gyflym yn yr eglwysi, ni ellir ei chyhuddo o arwain i fateroliaeth—i amheuaeth o fodolaeth anibynol yspryd, neu, i grediniaeth nad oes dim ond mater yn yr holl greadigaeth. Nid ar yr anwybodaeth a amlygir gan y penderfyniad a ddyfynwyd eisoes, fodd bynag, yr hoffwn sylwi yn awr yn benaf, ond yn hytrach ar yr anallu i ddeall

YSPRYD YR AMSER

y maent yn byw ynddo, a'r rhan a chwareuir ganddynt hwy—a chan ereill tebyg iddynt—mewn perthynas i fudiadau mawr eu hoes. Brwydrodd teidiau'r gwrthdystwyr hyn yn galed dros enill rhyddid barn. Yn y frwydr hon collodd miloedd eu bywydau ; ac o ffrwyth y frwydr y mae'r gwrthdystwyr yn awr yn cyfranogi—mwynhâant y fraint o addoli yn y ffurf a dybiant hwy yn oreu ac o gredu'r gwirionedd fel y maent hwy yn ei ddeall, oherwydd fod eu teidiau wedi brwydro a dioddef er eu henill. Diameu fod y gwrthdystwyr yn barod i gondemnio y rhai a achosasant yr erledigaethau a'r dioddefiadau i'w teidiau ; ac eto, wele hwy eu hunain yn euog o'r un ymddygiad—erlid y rhai a wnant eu goreu, yn ol eu goleuni, i arwain eu pobl i berffeithiach amgyffrediad o'r gwirionedd. Dygir adref atom gan y digwyddiad y ffaith fod yr

EGWYDDOR O ODDEFGARWCH

eto heb ei llwyr ddeall a'i gwerthfawrogi. Amlyga, hefyd, fod y gred yn nherfynoldeb datguddiad o'r gwirionedd yn un gyffredin iawn o hyd—cred ag y mae adnabyddiaeth arwynebol (allem dybied) o hanes cynydd a datblygiad syniadaeth grefyddol yn nghwrs hyd yn oed ychydig ganrifoedd yn wneud yn analiadwy. Nid yw dyn, yn ngwyneb y dirgelwch mawr a'i hamgylcha, ond megys baban. Y mae mor anwybodus yn nghylch pynciau mawr bywyd ac angeu heddyw ag erioed. Dygir i'w sylw esboniad ar ol esboniad iddynt. Dros amser enilla pob un o honynt ei gydsyniad. Ond buan y gorfodir i bob esboniad i roi lle i un arall amgenach. Dyna'r hanes o'r dechreu—dyn yn symud "o bwyll i bwyll ac o ddawn i ddawn" yn mlaen at y gwirionedd fel y mae. Araf yw'r symudiad—un cam byr ar y tro ; a gwna iawnffyddwyr pob oes eu goreu i'w arafu fwy fyth. Yn mhob cylch tu allan i grefydd, cydnabyddir mai anmherffaith yw gwybod-

aeth; ac nad yw'r fath beth a iawnffyddiaeth yn bosibl. Gwrthrych gwawd fyddai gwyddonwr iawnffyddol. Ond pan yr eir dros y trothwy i dir crefydd nid oes le i'r gair amherffaith. Yno mae dyn yn fwy rhyfygus. Gesyd i fyny ei fur iawnffyddol, tuallan i'r hwn, na chaniatai (pe gallai) i neb i sangu. Yr ydym, fodd bynag, yn byw mewn oes, yspryd nodweddiadol yr hon—yspryd chwilio a phrofi pob peth—a wna iawnffyddiaeth a'r yspryd iawnffyddol yn ddirmygus. Yn raddol gwthir iawnffyddiaeth barn ar y naill du, a dygir iawnder bywyd ac ymgysegriad i waith cymdeithasol i lanw ei lle fel maendisgyblaeth i'r Iesu.

Y GWYLIEDYDD.

"BYWYD IESU" GAN RENAN.

PENNOD VII.—IESU YN CAPERNAUM.

Wedi ei lwyr feddianu gan un syniad mawr, cawn Iesu o hyn allan yn myned yn ei flaen, yn ddiystyr o bob rhwystr, ar hyd y llwybr a wnaed iddo gan ei athrylith ryfeddol, a chan yr amgylchiadau hynod yr oedd yn byw ynddynt. Hyd yn hyn, nid oedd wedi cyfranu ei feddyliau ond i ychydig o bersonau oeddynt gyfeillion cyfrinachol iddo; o hyn allan daeth ei addysg yn gyhoeddus, ac i ddechreu tynu canlynwyr iddo. Yr oedd y nifer fechan o wrandawyr a'i dilynasent at Ioan Fedyddiwr yn ddiamheu wedi tyfu, ac y mae'n bosibl y darfu i rai o ddisgyblion Ioan ymuno âg ef. Gyda'r cnewllyn hyn o Eglwys y darfu iddo, ar ei ddychweliad i Galilea, gyhoeddi yn hyf "newyddion da teyrnas Dduw." Yr oedd y deyrnas hon i ddyfod, ac efe, Iesu, oedd "mab y dyn" a welodd Daniel yn ei weledigaeth fel tywysydd dwyfol y datguddiad olaf a rhagoraf.

Bu llwyddiant ymadroddion y proffwyd newydd yn ddiamheuol y tro hwn. Ymgasglodd lluaws o wŷr a gwragedd o'i gylch,—rhai oeddent yn meddu'r un yspryd agored, syml, a diniwed ag ef ei hun, a d'wedent wrtho: "Ti yw y Messiah." Gan mai mab Dafydd oedd y Messiah i fod, yn naturiol rhoddent iddo y teitl hwn, oedd yn gyfystyr â "mab y dyn." Caniataodd Iesu iddynt ei roddi iddo gyda phleser, er i hyn beri peth cythrwfl iddo, gan mai pobl gyffredin oedd ei rieni. Y teitl hoffai ef fwyaf oedd "mab y dyn," teitl digon isel mewn ymddangosiad, ond un oedd yn uniongyrchol gysylltiedig â'r gobeithion am y Messiah. Yr enw hwn a ddefnyddiai bob amser, gan nad oedd yn hoff ganddo ddefnyddio'r rhagenw "Myfi." Ond nis gelwid ef gan neb wrth yr enw hwn, yn ddiamheu am y tybid nad oedd yn briodol iddo hyd ddydd ei ymweliad â'r ddaear am yr ail waith. Yn ystod yr adeg hon o'i fywyd, canolbwynt gweithgarwch Iesu oedd tref fechan Capernaum, ar làn llyn Genesareth. Mae'n debyg mai o'r gair *caphar* (pentref) y tardd yr enw Capernaum, a safai am dref o'r hen ffasiwn, mewn gwrthgyferbyniad i'r trefydd mawr a adeiledid yn ol y dull Rhufeinig, fel Tiberias, er engraifft. Mor anenwog oedd y fan, fel y camgymera Josephus hi am y ffynon,

oedd yn fwy adnabyddus na'r pentref gerllaw iddi. Fel Nazareth, lle dihanes oedd Capernaum, heb wneud dim cynydd yn nghyfeiriad y symudiad Rhufeinig a gefnogid gan yr Herodiaid. Yr oedd Iesu yn dra hoff o'r fangre hon, ac ystyrid y dref ganddo fel ail gartref. Yn mhen ychydig wedi ei ddychweliad, yr oedd wedi ceisio gosod ei ddylanwad ar Nazareth, ond heb ddim llwyddiant. Nis gallodd gyflawni'r un wyrth yno, yn ol sylw syml un o'i fywgraffwyr. Yr oedd y ffaith fod y bobl yn adnabod ei deulu mor dda yn myned yn mhell i ladd ei awdurdod. Anhawdd ystyried fel mab Dafydd un yr adnabyddid mor dda ei frawd, ei chwaer, a'i frawd-yn-nghyfraith. Y mae'n hynod hefyd i'w deulu ei hun fyned yn ei erbyn, gan wrthod yn bendant gredu yn ei genhadaeth. Yn wir, dywedid fod y Nazareaid am ei gymeryd i fan uchel, a'i ladd drwy ei daflu dros y creigiau. Sylwodd Iesu nad oedd hyn ond tynged gyffredin pob dyn mawr, gan gymhwyso ato ei hun y ddihareb, "Nid yw neb broffwyd yn ei wlad ei hun."

Ond ni wnaeth hyn mewn un modd ei ddigaloni. Daeth yn ol i Capernaum, lle y cawsai well croesaw, ac yma y trefnodd amryw genhadaethau i'r trefydd cylchynol. Anaml yr ymgyfarfyddai pobl y wlad brydferth a ffrwythlon hon oddigerth ar y Sadwrn, hyny yw y Sabbath. Hwn oedd y dydd a ddewisid ganddynt i roddi a derbyn addysg. Yr oedd i bob tref ei synagog. Ystafell bedair-onglog ydoedd, digon bechan, gyda phorth wedi ei addurno yn y dull Groegaidd. Nid oedd gan yr Iddewon arddull eu hunain i adeiladu. Y mae llawer o weddillion hen synagogau yn aros yn Galilea. Y mae'r oll yn cynwys defnyddiau da, ond digon musgrell yw'r arddull, o ddiffyg symledd a phrydferthwch. Oddimewn yr oedd meinciau, math o bwlpud er mwyn darllen yn gyhoeddus, a chwpwrdd i gadw'r cyfrolau sanctaidd ynddo. Nid oedd yr adeiladau yn debyg iawn i demlau, eithr ynddynt hwy yr oedd canolbwynt yr holl fywyd Iddewig. Yma'r ymgasglai'r bobl ar y Sabbath i weddïo ac i wrando darllen y Gyfraith a'r Proffwydi. Gan nad oedd gan Iddewaeth, o'r tu allan i Jerusalem, offeiriaid yn ngwir ystyr y gair, esgynai unrhyw un y pwlpud, darllenai y rhanau o'r ysgrythyr am y dydd, gan wneud sylwadau personol a rhoddi ei esboniadau ei hun ar y pethau a ddarllenid ganddo. Dyma ddechreuad yr "homili," a gawn yn ei pherffeithrwydd yn nhraethodau byrion Philo. Yr oedd hawl gan y gwrandawyr i ddadlu â'r darllenydd ac i holi cwestiynau iddo; felly elai y cwrdd yn fuan yn fath o ddadleufa beunydd. Yr oedd i'r gynulleidfa lywydd, "henuriaid," hazzan, neu ddarllenydd swyddogol, "negeswyr," neu ysgrifenyddion rhwng un synagog a'r llall, a schammasch, neu fath o glochydd a cheidwad y pethau cysegredig. Yr oedd y synagog felly yn fath o weriniaeth fechan anibynol, ag awdurdod eang yn ei meddiant. Fel yr holl gynghorau dinesig yn adeg yr ymherodraeth Rufeinig, gwneid penderfyniadau yma yn meddu holl nerth ac awdurdod cyfraith, ac yr oedd yn ei gallu i roddi cerydd gorfforol i ddrwg-weithredwyr, drwy ddwylaw yr hazzan, fel rheol. Yr oedd sefydliad o'r fath, yn rhinwedd bywiogrwydd yspryd pobl fel yr Iddewou, yn debyg o greu dadlu brwd yn aml. Drwy gymhorth y synagog y mae Iddewaeth wedi tramwy yn ddiogel dros ddeunaw canrif o erledigaeth. Fel pob mangre fechan ar ei phen ei hun, yr oedd yr yspryd cenedlaethol yn boeth ynddi, a chynyrchid o'i mewn swm anferth o wres, dadl a gwrth-ddadl. Ac yr oedd yma lawer cweryl am y sedd flaenaf. Cael cadair yn y lle pellaf yn mlaen oedd taledigaeth duwioldeb dwfn, neu ragorfraint golud a eiddigeddid yn fwy na duwioldeb. O'r tu arall, yr oedd y rhyddid a ganiateid i bawb i ddarllen ac esbonio yr ysgrythyrau sanctaidd yn fantais ragorol i'r rhai a ddewisent bregethu pethau newyddion. Hon oedd mantais fawr Iesu, a'r modd a gymerai, ran amlaf, i gyhoeddi ei athraw-

iaethau. Elai i mewn i'r synagog, safai i ddarllen ; estynai yr hazzan y llyfr iddo, dadrolai yntau ef, a chan ddarllen y bennod am y dydd, tynai o'r hyn a ddarllenai y gwersi hyny oeddynt yn cydfyned â'i syniadau. Gan nad oedd ond ychydig o Phariseaid yn Galilea, nid oedd y dadleu yn ei erbyn mor gryf ag y buasai yn Jerusalem ; yno, yn ddiamheu, buasai mor chwerw nes rhoddi pen arno mewn byr amser. Nid oedd y Galileaid hyn erioed wedi clywed syniadau oeddynt yn cydfyned gystal â'u tymher dirion a'u dychymyg bywiog. Edmygent ef, canmolent ef, a theimlent fod ei eiriau yn deg a'i ymresymiadau yn eu hargyhoeddi. Elai dros bob anhawsder gyda'r rhwyddineb mwyaf ; yr oedd melusder ei ymadrodd a swyn ei berson yn denu y bobl ieuainc hyny nad oeddynt eto wedi eu sychu gan goeg-addysg y doctoriaid.

Yr oedd awdurdod y dyn ieuanc felly yn myned fwy-fwy bob dydd ; ac yn naturiol, po fwyaf y credid ynddo, mwyaf oll y credai ynddo ei hun. Yr oedd ei weithrediadau hyd yn hyn yn gyfyngedig iawn. Nid aent y tu allan i amgylchoedd llyn Tiberias, ac hyd yn oed o gylch y llyn yr oedd iddynt eu màn dewisedig. Y mae'r llyn rhyw bymtheng milltir o hyd wrth ddeng milltir o led. O ddinas Tiberias hyd y lle yr ymarllwysa'r Iorddonen i'r llyn y mae math o haner cylch tua naw milltir o ben i'w gilydd. Dyna'r fan a ddewisodd i hau ei hadau ynddo, a chafodd y tir wedi ei barotoi yn dda. Awn drosto yn weddol fanwl, gan geisio cyfodi oddiarno y fantell o sychder a galar sydd wedi ei daflu drosto gan gythraul Mahometaniaeth.

Wrth ymadael o Tiberias, gwelir yn gyntaf greigiau ysgythrog, a mynydd yn edrych fel ar fin syrthio i'r môr. Yna ymwahana'r mynyddau ac egyr gwastadedd (El Ghoueir) prin uwchlaw arwynebedd y llyn. Tŷf coedydd hyfryd ar y gwastadedd hwn a gwna ffrydiau dyfroedd rychiau drwyddo,—nentydd a ymarllwysant yn rhanol o fath o bwll crwn o wneuthuriad hynafol. Ar ymyl y gwastadedd hwn, gwir dalaeth Genesareth, ceir pentref bychan truenus Medjdel. Ar derfyn arall y gwastadedd (ar lan y môr o hyd) ceir tref arall (Kan-Minyeh), dyfroedd tra phrydferth (Aïn-et-Tin), ffordd hyfryd, cul a dofn wedi ei thori yn y graig, ffordd yn ddiamheu a gerddwyd yn aml gan Iesu, ac un a wasanaetha i gysylltu gwastadedd Genesareth â llethrau gogleddol y llyn. Taith chwarter awr oddiyma croesir afon fechan o ddwfr hallt (Aïn-Tabiga) yn tarddu o amryw ffynonau ychydig gamrau o'r llyn, ac yn rhedeg drwy lwyni tew a glaswellt brâs. Yna, taith rhyw ddeugain mynud yn nes yn mlaen, ar y llethr llwm a ymestyna o Aïn-Tabiga hyd enau'r Iorddonen, cawn ychydig fwthynod a charn o adfeilion henafol a elwir Tell-Houm.

Yr oedd pum tref fechan, mor enwog yn hanes dynoliaeth a Rhufain ac Athen, yn amser Iesu, yn sefyll yn y wlad rhwng Medjdel a Tell-Houm, o'r pum tref hyn, Magdala, Dalmanutha, Capernaum, Bethsaida, Chorazin, y cyntaf yn unig a adnabyddir gyda sicrwydd heddyw. Y mae pentref truenus Medjdel yn ddiamheu wedi cadw enw'r lle a rodd i Iesu ei gyfeilles oreu. Mae'n bosibl fod Chorazin ychydig yn mhellach yn y wlad, yn nghyfeiriad y gogledd. Am Bethsaida a Capernaum, ar antur braidd eu lleolir yn Tell-Houm, Ain-et-Tin, Khan-Minyeh neu Ain-Medawara. Yn sefyllfa lleoedd, fel mewn hanesiaeth, gellid tybio fod rhyw fwriad cyfrin wedi ewyllysio cuddio llwybrau y sylfaenydd mawr. Y mae'n amheus a fedrir byth, ar y ddaear anrheithiedig hon, benodi'r manau lle yr hoffai dynoliaeth ddyfod i gusanu ol ei droed.

Y llyn, y gorwel, y llwyni bychain, y blodau, yw'r unig bethau a erys yn y wlad lle y dechreuodd Iesu ei waith dwyfol. Y mae'r coed mawrion wedi diflanu'n hollol. Sylwodd Josephus mor wyrthiol oedd golwg y wlad pan yn ei gogoniant o lysiau a choed. Yr oedd natur yna, yn ol yr awdwr

hwn, yn ymhoffi casglu yn nghyd blanhigion y gwledydd oerion a phrenau o diroedd gwres, yn nghyd a chynyrchion hin dymherus, gan gadw'r wlad drwy'r flwyddyn yn llawn blodau a ffrwythau. Yn y wlad hon, heddyw meddaf, rhaid cyfrif yn ofalus ddydd yn mlaenllaw pa le y ceir cysgod tranoeth i gymeryd pryd o fwyd allan o anterth yr haul. Y mae'r llyn wedi myned yn ddiffaethwch. Un cwch yn unig a welir ar ei wyneb heddyw, lle y bu mor llawn bywyd a llawenydd. Ond y mae ei ddyfroedd o hyd yn ysgafn a thryloewon. Y mae ei draeth, sydd yn llawn cerig mawrion, yn debycach i lan môr nag ymyl llyn, megys glan llyn Huleh. Y mae'n lân ac yn ddilaid, ac awel ysgafn beunydd yn chwareu hyd ei wyneb. Ymestyn penrhynau bychain yma a thraw i'r dwr, a llawryf blodeuog a mân goedydd pigog yn eu harwisgo. Mewn dau fan yn enwedig, sef wrth enau'r Iorddonen, ac ar ymyl gwastadedd Genesareth, y mae'r ddaear yn hynod hardd, a'r tonau'n ymestyn at làn orchuddir gan fantell o laswellt îr a blodau amryfal eu gwawr. Lle'r arllwys ffrwd Aïn-Tabiga i'r llyn, ceir amrywiaeth hynod o gregyn tlysion. Ar y llyn ceir helaethrwydd o ddwfradar yn nofio. Y mae'r gorwel yn ganaid gan oleuni. Y mae'r dwr o las y wybren, ac yn gorwedd rhwng y bryniau megys rhwng cwpan o aur. I'r gogledd gwelir rhychiau mynydd Hermon, yn llawn eira purwyn, yn esgyn tua'r nefoedd ; i'r gorllewin, y mae gwastadeddau uchel a thonog Gaulonitus a Perea yn ymestyn, heb arnynt ddim ond gwê sidanog goleuni dydd, ac ymestynant yn ddidor o Cesarea Phillipi i'r deheu. Y mae'r gwres ar y lan yn llethol yn awr. Y mae'r llyn dros ddau-can llath islaw arwynebedd môr y canoldir, ac felly mae'n dioddef gwres trofanol fel eiddo'r Môr Marw. Yr oedd digonedd o goedydd gynt yn tymheru'r gwres anioddefol hwn ; anhawdd deall fod ffwrnes fel y gwelir hon yn awr yn nyddiau Mai yn ganolbwynt yni a gweithgarwch yn yr oesau gynt. Cawn Josephus yn desgrifio'r wlad fel mangre dymherus iawn. Yn ddiau, mae'r hinsawdd yma, fel yn y wlad ogylch dinas Rhufain, wedi ei ddwyn oddiamgylch gan achosion hanesyddol. Mahometaniaeth, fel gwynt difaol, sydd wedi bod yn achos distryw i'r wlad oedd mor hoff gan Iesu. Ychydig feddyliai Genesareth fod ei thynged yn nwylaw y gwr heddychlawn a rodiai hyd ei llwybrau oesau'n ol. Bu Iesu'n angau i'r wlad gafodd yr anrhydedd o'i fagu. Daeth y fro yn wrthddrych serch neu atgasrwydd i ddwy blaid wrthwynebus, a throdd yr ymdrech hi yn fan anghyfanedd, ac yn anialwch anhygyrch. Hyn ydoedd pris ei gogoniant dyfodol. Ond pwy fentrai ddweyd y buasai'r Iesu yn fwy dedwydd, ped arosasai yn ei bentref ei hun, i gyrhaedd oedran teg mewn heddwch a thaweledd? Ac yn y Nazareaid anniolchgar, pwy a feddyliasai ddim am danynt hwy, pe na buasai i un o honynt adnabod ei Dad, a chyhoeddi ei hunan yn fab Duw?

Ambell i waith teithiai'r Iesu i'r trefydd cylchynol, ond nid yn mhell, nac am hir amser. Nid oedd dim mewn paganiaeth i'w ddenu ef. Y mae Un-dduwiaeth yn lladd y gallu i ddeall y crefyddau paganaidd. Nid oes gan y Mahomedan ychwaith lygad i weled dim mewn gwledydd lle y ffyna aml-dduwiaeth. Ni wnaeth ei deithiau fawr argraff ar Iesu. Delai yn ol bob amser i'w wlad anwyl Genesareth. Yno yr oedd ei galon yn byw ; yno, bob amser, yr oedd canolbwynt ei ffydd a'i serch.

YSPRYD Y CELT.

GAN SARNICOL.

(Parhad o Rifyn Gorphenaf).

Gwelir fod Mathew Arnold yn siarad a'i lygad fwyaf ar Gelt yr Ynys Werdd—ac yn meddwl o hyd am *wit* y Gwyddel; tra y mae Renan yn cofio o hyd am drigolion prudd Llydaw. Ond tybia Mathew Arnold mai'r gair *sentimental* sydd yn cynwys yr hyn sydd gyffredin i'r holl ganghenau o'r cyff Celtaidd. Y mae dansoddiad Arnold o natur y Sais, o'i gymharu â natur y German, ei gefnder, yn wir ddyddorol, drwy ddangos dylanwad athrylith y Celt ar feddwl y Sais wedi ei ddyfodiad i Brydain o goedwigoedd yr Almaen.

Yr wyf yn dweyd fod elfen Geltaidd yn natur y Sais, yn ogystal ag elfen Germanaidd, ac fod yr elfen hon yn dra amlwg yn yspryd a llenyddiaeth y Sais. Dyma dd'wed yr ysgrifenydd craff hwn am yspryd neu athrylith y Sais, yw fod ganddo *yni gyda gonestrwydd — energy with honesty.* Yspryd y German yw—dyfalwch gyda gonestrwydd—*steadiness with honesty.*

Yn awr y mae yna gryn wahaniaeth rhwng *yni—energy* a *dyfalwch* neu *ddyfalbarhad.* '*Steadiness*' yw'r gair ddefnyddir gan Mathew Arnold, a myn y gwr dysgedig hwn fod y gwahaniaeth yma rhwng y Sais a'r German i'w briodoli i'r ffaith fod elfen gref o'r Celt yn y Saeson. Yn sicr y mae'r Sais yn llawer mwy bywiog na'r Ellmynwr—gwr diflas a thrymaidd yw'r German fel rheol. Y mae beirniaid tramor wedi sylwi ar droion fod yna elfen gref o'r athrylith Geltaidd yn marddoniaeth y Sais; yn wir dywed un o ddysgedigion Lloegr ei hun nad allai Lloegr byth fod wedi cynyrchu Shakespeare onibae am y wreichionen o'r Celt yn ei natur. Ys dywed Renan y mae crebwyll y Celt yn ddiderfyn; ac addef Mathew Arnold fod y Celt yn anfeidrol uwch na'r Teuton mewn mater o chwaeth; ac y mae'n ddyddorol sylwi ar rai o linellau mwyaf addurnol Shakespeare yn y cysylltiad hwn. Nis gwn am un darn gan y bardd Seisnig sydd yn hafal i'r canlynol o'r "Tempest":—

'And, like the baseless fabric of this vision
The cloud-capped towers, the gorgeous palaces,
The solemn temples, the great globe itself
Yea, all which it inherits shall dissolve,
And like the insubstantial pageant faded
Leave not a wrack behind. We are such stuff
As dreams are made of, and our little life
Is rounded with a sleep.'

Y mae rhywbeth o anian feddyliol y Celt yn Shakespeare, natur sydd yn teimlo mai rhywbeth darfodedig yw sylweddau mwyaf sefydlog y byd hwn.

Gadewch i ni eto gymharu teithi y gwahanol genhedloedd:—

Un araf, trwm, a dwfn yw'r Ellmynwr—

Gwr egniol, llawn synwyr cyffredin yw'r Sais—

Gwr bywiog, ysgafn, hytrach yn arwynebol yw'r Ffrancwr—

Gwr o *deimladaeth* ddofn yw'r Celt—weithiau ar uchelion gorfoledd, weithiau yn nyfnderoedd anobaith; ar ŷ cyfan, beth bynag, mae'r nodyn lleddf yn naturiol i'r Celt, yn enwedig y Cymro, a'i gefnder y Llydäwr. Mae yspryd yr Ucheldiriwr yn yr

Alban yn chwanog i'r cywair prudd. Gyda'ch caniatad dyfynaf ddarn o Ossian, bardd dall yr Alban, Homer y Gogledd, fel y gelwir ef weithiau :—

'Teimlaf yr haul. Gad i mi orphwys, O Malfina ! Efallai y del dewinion y dyddiau gynt yn ol i mi yn ngweledigaeth cwsg. Dychmygaf glywed llais egwan yn yr awel ! Y mae pelydr yr haul yn hoffi gorphwys ar feddrod Carthon ; teimlaf ei wres o'm cylch !

'O tydi sydd yn ymdreiglo yn y nefoedd, yn grwn fel tarian fy nhadau ! Pa le mae dy belydrau, O haul ! dy oleuni tragwyddol di ? Ti a ymdeithi yn mlaen yn dy fawredd ofnadwy ; y ser a guddiant eu hunain yn y ffurfafen ; sudda'r lloer yn oer a gwelw, i dòn y Gorllewin. ond tydi a symudi yn unig ; pwy eill fod yn gydymaith dy yrfa ? syrth derw'r mynyddoedd ; y bryniau hefyd a wywant gan flynyddau eu hoedran ; y moroedd a dreiant ac a gynyddant drachefn ; y lloer a ymgolla yn y ffurfafen ; ond tydi sydd dragwyddol yr un ; gan orfoleddu yn nisglaerdeb dy ymdaith. Pan ymdywyllo'r ddaear gan dymhestloedd ; pan ymdreiglo'r daran ac yr eheda'r mellt ; tydi a edrychi i waered yn dy ysplander, drwy hollt y cymylau gan chwerthin ar y storm.

'Ond i Ossian, yn ofer yr edrych ; canys nis gwel ef dy belydrau mwy ; pa un ai chwifia dy felynwallt ar gymylau'r Dwyrain, neu y'th geir yn curo wrth ddorau'r Gorllewin. Ond efallai nad wyt tithau ond am dymhor, fel y bardd ; dichon y bydd terfyn hefyd i'th flynyddoedd dithau. A thi a gysgi yn y cymylau yn ddiofal o lais y wawrddydd. Ymlawenycha, O haul, yn nghadernid blynyddau dy ieuenctyd ! Henaint sydd dywyll ac anmhrydferth, megys tywyniad gwan y lloer, pan y goleua drwy agen y cwmwl, tra mae'r niwl yn aros ar y bryniau ; y mae gwynt y Gogledd yn udo ar y gwastadedd ; y mae'r teithiwr yn fferi ar ei daith.'

Nis gwn am un darn o lenyddiaeth sydd ar unwaith yn dangos cydymdeimlad â mawredd anian, arddunedd meddwl, a phrudd-der melus—fel cân alarch wrth farw—neu adsain gwynt dolefus hydref rhwng cangau gwywedig y coed—na'r darn hwn o eiddo Ossian ddall o'r Alban.

Y mae'r Cymro, a'r Llydawr hefyd yn hoff o'r mesur lleddf ; car wylo am Forfa Rhuddlan, hoff ganddo fyfyrio ar feddau Dyffryn Clwyd—

'Lle nad oes, dim ond darn bach o'r groes
Fu gynt yn golofn ar las fedd.'

Hyfrydwch melus i'r pysgotwr Llydewig yw canu nid "*Buy my caller 'erin'*"—ond am bysgotwyr a foddwyd yn y dymhestl, am y llong na ddychwelodd yn ol ; y Llydawr weddiai gynt pan mewn cyni ar y dyfnder :—

"Fy Nuw, beth a wnaf ! mae'm bad mor fychan a'th fôr mor fawr !"

O'r holl lenyddiaeth Geltaidd, diamheu mai'r Mabinogion sydd yn cynwys mynegiant mwyaf perffaith *yspryd y Celt*—yspryd y Celt yn ei amser goreu, yn ei ieuenctyd cyn i ofalon yr oesau, a thrais a gormes y blynyddau blanu prudd-der bythol yn ei fron.

Y mae *teimladaeth* y Cymro mor fyw ag erioed yn y Mabinogion—yn wir ynddynt hwy y ceir holl nwyfiant crebwyll y Celt. Yn wir y Mabinogion yw ffynonell rhamant y cenedloedd. Yspryd rhyfedd yw yspryd y Mabinogion ; y maent yn llawn tangnefedd a hyfrydwch naturiol ; rhyw daweledig bendigedig fel boreu breuddwydiol o Fehefin. Nid oes yma greulondeb, nag yspryd dial fel sydd yn llenyddiaeth y Teuton—yn yr Edda a Niebelungen Lied—er engraifft, ond rhyw dynerwch euraidd yn teyrnasu drwy yr oll. Dyn ac anifail mewn undeb ; prydferthwch natur yn harddu pob peth ; a gogoniant cysegredig merch yn coroni'r oll. Nid oes neb wedi dyrchafu merch fel y mae'r Celtiaid wedi gwneyd—yn oes y Mabinogion y darganfyddwyd ei phrydferthwch santaidd hi.

Gadewch i mi ddyfynu ychydig o'r rhamant fwyaf Celtaidd o'r holl Fabinogion, sef Cilhwch ac Olwen—lle mae Olwen yn cynrychioli delfryd y Celt o'r rhyw fenywaidd. Y mae'r fabinogi hon yn arddangos dullwedd y meddwl Cymreig yn ei holl burdeb, medd Renan. Gwrandewch yn gyntaf ar y desgrifiad o'r marchog ieuanc Cilhwch yn cychwyn i lys Arthur :—

"A'r mab a gychwynodd ar farch penllwyd, gaflgyfyng, carngragen, pedwar gauaf oed, a ffrwyn o aur dolenog oedd ganddo yn mhen y march, a chyfrwy o aur gwerthfawr arno. Yn ei law yr oedd dwy waewffon arian miniog a thryloewon. Yn y llaw arall gleddyf wedi ei flaenllymu â dur—digon o faich i ddyn—digon miniog i dynu gwaed o'r gwynt, ac mor chwim ei ddisgyniad a'r gwlithyn cyntaf a syrthiai oddiar y glaswelltyn pan fyddai drymaf y gwlith fis Mehefin. * * * A dau filgi brydiwn, bronwynion a chwareuent o'i amgylch, a thorch o ruddaur yn cyrhaedd o'r glust i'r ysgwydd am wddf pob un. Yr hwn a fyddai ar yr ochr aswy a neidiai i'r ochr ddeheu, a'r hwn a fyddai ar yr ochr ddeheu i'r ochr aswy ; ac yr oeddent fel môr wenoliaid yn chwareu o'i ddeutu * * * &c."

Wedi llawer o rwystrau a ymddangosent yn hollol anorchfygol, del Cilhwch o hyd i Olwen, merch Yspaddaden Pencawr—"Danfonwyd i gyrchu y forwyn, a hithau a ddaeth. Gwisg o sidan fflamgoch oedd am dani, a chadwyn o ruddaur a pherlau emerald am ei gwddf. Melynach oedd ei phen na blodeu y banadl. Gwynach oedd ei chroen nag ewyn y dòn. Tecach oedd ei dwylaw a'i bysedd na blodeuyn anemoni yn ewyn ffynon gweirglodd. Disgleiriach ei llygaid na golwg y gwalch a'r hebog. Gwynach oedd ei dwyfron na bron yr alarch gwyn. Cochach oedd ei dwyrudd na'r claret cochaf. Y sawl a'i gwelai, cyflawn a fyddai o'i serch. Pedair o feillion gwynion a dyfent yn ol ei throed pa le bynag y cerddai, ac am hyny y gelwid hi, *Olwen*."

Ofer ceisio dangos golygfa i'r *dall*; ffol treio canu cerdd yn nghlust y byddar ; a gwastraff ar amser yw cynyg egluro prydferthwch meddwl desgrifiadau fel yr uchod i'r neb nag sydd o anian a theimlad bardd. Ond y mae darfelydd y gwir Gymro bob amser yn cael ei danio gan farddoniaeth ryfedd ei hen deidiau a adroddasant y Mabinogion. Yn y Canoloesoedd lefeiniwyd Ewrop oll gan yspryd y Celt ; efe yn ddiamheu roddodd ddechreuad i ddefodau marchogwriaeth yn ngwledydd y Gorllewin—prif effaith yr yspryd hwnw efallai oedd cyfodi safle *merch* mewn cymdeithas. A gellir mesur gwareiddiad bob amser wrth y parch a dal yr oes i burdeb a chysegredigrwydd *merch*. Gwelir felly fod y Cymro yn arbenig wedi cyfoethogi'r byd yn y gorphenol nid yn gymaint gydag aur a dyfais, ond gyda chyfoeth anfesuradwy ei yspryd a'i ddarfelydd. A'r hyn a wnaeth yn y gorphenol, efe a wna eto yn y dyfodol ; ysprydoli cymdeithas, a bywhau materoldeb y byd ag anadl hyfryd ei grebwyll ; dangos gweledigaeth o fywyd uwch i oes sydd wedi ei dallu â'r budredd hwnw a elwir yn *gyfoeth*.

Symir cymeriad y Cymro yn brydferth iawn gan O. M. Edwards fel y canlyn :—

Fel eu gwlad a glanau ei moroedd, felly hefyd y mae'r Cymry. Gwyllt ydyw'r wlad, amrywiol a rhyfedd ; troellog ydyw ei ffyrdd, ac ni wel neb a'i tramwyo fawr yn mlaen. Y mae Lloegr yn wastad, ei ffyrdd yn union, gwel y teithiwr o ben y daith faint sydd ganddo i'w gerdded, a faint fydd ei ludded. Felly am drigolion y wlad—gwr rheolaidd a phwyllog ydyw'r Sais, gwr y gellir dibynu arno, gwr wel lwybr dyledswydd ei fywyd yn glir o'i flaen, gwr heb bryder nac ansicrwydd meddwl nac anwadalwch. Ond am y Cymro y mae ei feddwl yn rhamantus ac athrylithgar, a gobaith yn gryfach na ffydd ; ni wel yn mhell yn mlaen, y mae ei holl fyd ar y llecyn y digwydd fod ynddo, y mae ei lwybr heibio cornel mynydd, ni wel beth sydd o'i flaen, nid yw dyfal-

barhad dyn y llwybrau sythion yn perthyn iddo, ac nid oes sicrwydd beth a wna pan fo mynydd rhyngoch ag ef. Plentyn y mynyddoedd ydyw —yn addaw i Dduw ar lawer awr o frwdfrydedd fwy nag y medrai bywyd o ddyfalbarhad ei gyflawni. Cryfder dychymyg a dyhead am fywyd gwell, a phruddglwyf wrth weled mor anodd ydyw sylweddoli pan fo'r brwdfrydedd wedi oeri – dyna brif nodweddion y Cymro."

Ond gwelwyd cenedl fechan Groeg yn gorchfygu ei choncwerwyr. Breuddwydiodd Israel yn ei gostyngeiddrwydd am goncwest ysprydol o'r byd, ac y mae'r breuddwyd wedi dod i ben. Y mae'r tân Celtaidd wedi goleuo'r byd cyn hyn—ac y mae yn fyw yn Nghymru heddyw—yn fwy byw nag y mae wedi bod er's oesau. Cadwn ef yn fyw er mwyn Cymru, er mwyn y byd, er mwyn y nefoedd. Nid drwy ddamwain y daeth athrylith y Brython i fod; nid yn ofer y breuddwydiodd yr Iberiad prudd ei freuddwydion melus; ac y mae neges eto i'r byd gan athrylith fyw, gan ddarfelydd diderfyn, a chan yspryd nef-anfonedig y Celt.

WYTHNOS AR Y VAN.

Hyd yn oed cyn cael dim profiad o'r gwaith, meddienid fi â ffydd angerddol yn y lles difesur a fyddai yn sicr o ddilyn yn ol y Van yn ei hymdaith drwy ranau o ddeheubarth Cymru, ac yn awr ar ol y profiad mae fy ffydd yn gryfach na chynt. Er gwaethaf y disgwyliadau uchel oedd genyf am lwyddiant mawr y gwaith, pryder llethol a ddirwasgai ar fy yspryd pan gychwynwn o gartref ar y 25ain o Fehefin i gwrdd â'r Van Undodaidd ar ei harosiad yn Mhontardawe am ddwy noswaith yn ystod ei phererindod o bum' mis. Ofnwn nad oeddwn ddigonol i'r gwaith, oblegid mae'n rhaid addef mae profiad yn elfen bwysig wrth sefyll o flaen torf o wrandawyr astud i glywed am y tro cyntaf, o bosibl, wirioneddau gwerthfawr y ffydd syml Undodaidd. Gall dyn fod yn llwyddiant hollol fel pregethwr yn ei bwlpud ac yn fethiant hollol ar gongl yr ystryd. Yr ymwybyddiaeth o hyn oedd achos fy mhryder. Ond yr oedd pryder y noson gyntaf yn llai i mi nag i eraill o'm cyd-genhadwyr am y rheswm mai yn Mhontardawe yr oedd fy nghoelbren wedi disgyn, ac am y gwyddwn y cawn y bardd Alfa a'i braidd ffyddlon yn engyl gwarcheidiol o'm cwmpas i'm hamddiffyn a'm sirioli. Goddefer i mi ddweyd nad anghofiaf byth y caredigrwydd mawr a dderbyniais yn Mhontardawe, Gwaun Caegurwen, Ammanford (er gwaethaf y *police*), Aberaman, a Mountain Ash. Ar ddiwedd fy anerchiadau i dorfeydd mawrion ymdyrai y bobl, oeddynt ddieithriaid hollol i mi, o'm hamgylch, ac ymgomiem hyd haner nos ar bynciau mawrion nad oeddem yn unfryd unfarn mewn perthynas â hwynt, ond er yn anghytuno ar fân bethau, ffynai y cyfeillgarwch goreu rhyngom. Os gallaf farnu wrth ymddangosiadau, credaf mai y lle y llwyddais i oreu ynddo oedd Gwaun Caegurwen. Yno y deuais o hyd i nifer fawr o fechgyn ieuainc myfyrgar, wedi astudio llawer, ac wedi hen flino ar gibau sychlyd yr hen systemau. Pleser i'm hyspryd oedd gwylio eu gwynebpryd pan y siaradwn wrthynt, ac y ceisiwn ddadlenu o'u blaen newyddion da ein hefengyl syml ni. Mor astud oeddynt

yn gwrando, mor awyddus oeddynt i wybod rhagor o hyd. Pan yn ymadael tybiwn fy mod wedi byw oes gyfan yno, a theimlwn hiraeth ar ol cyfeillion oeddynt wedi dyfod yn anwyl i mi. Derbynied y cyfaill ardderchog, Joseph Williams, a'i deulu cysurus, fy niolchgarwch goreu am y mwynhad dygyfor gefais yn ei gyfeillach. O'r holl ffyddloniald, cefais Joseph y ffyddlonaf. Yr hyn sydd yn fy mlino yn awr yw, beth wneir o'r lleoedd hyn yn y dyfodol? Ar ol dangos iddynt lygedyn o'r goleuni gwell sydd wedi ymdori ar bethau, ac ar ol rhoddi iddynt flas y gwirioneddau mawrion ydynt yn etifeddiaeth oludog yr ugeinfed ganrif, a adewir hwy heb oleuni pellach? Credaf mai ein dyledswydd yw talu ymweliadau mynych â'r lleoedd hyn, cynal cyfarfodydd ynddynt, a gwneud ein rhan i fforddio camrau y werin fawr o wŷr ieuainc mwyaf deallgar yr oes, er eu cadw rhag myned i dir llwm a diffrwyth amheuaeth ac agnosticiaeth. Byddaf yn foddlon iawn i roddi fy ngwasanaeth yn y cyfeiriad hwn yn ystod y gauaf. Mae y maes yn wŷn i'r cynhauaf, a gadewch i ninau fod yn barod â'r crymanau. Yn Ammanford, drachefn, yr oedd y tyrfaoedd mewn tymher ragorol, yn gwrando â'u holl egni, ac ar ddiwedd y cwrdd yn ymgrynhoi o gylch Mr. Jenkins a minau, i ymholi am y llyfrau goreu i'w darllen ac am oleuni ar rywbeth oedd yn aneglur iddynt. Dim ond un bôd aniddig welsom yn y lle, a hwnw yn heddgeidwad yn dyoddef oddiwrth ddiffyg traul. Pan yn ysgrifenu y nodiad hwn yr wyf newydd gyrhaedd cartref ar ol wythnos o brofiad arall gyda'r Van yn nghwm Aberdar. Yr un 'stori' sydd i'w hadrodd yn mhob man,—mae ymdaith y Van fel ymdaith byddin fanerog yn cyhoeddi buddugoliaeth yn mhob cwr o'r wlad. Ymddibyna y llwyddiant, serch hyny, i fesur mawr ar y fan y gwersyllwn. Mae yn anhawdd weithiau i gael lle cyfleus —rhyw lecyn y mae'r bobl yn ymgynywair iddo. Os na cheir hyny, siawns wael sydd i sicrhau cyrddau llewyrchus. Buom yn hynod anffodus yn y cyfeiriad hwn yn Mountain Ash. Yr unig le ellid gael oedd llechwedd bryn uchel uwchben y dref, lle caem olygfa ogoneddus o'r holl amgylchoedd, ond ddim o'r 'world of man,' ys dywedai Browning, i ddyfod i wrando ar ein cenadwri. Ar ol ymgais hollol aflwyddianus i gael cwrdd ar drum y mynydd, aethom y noson olaf o'n harosiad i lawr, heb y Van, i ganol y dref, ac yno y darfu i'r Parch. D. J. Evans, Caer, a minau anerch tyrfa fawr, a chawsom hwyl gampus. Ond o ddiffyg lle cyfleus coll'som gyfle gwerthfawr. Daeth yr hybarch. R. J. Jones, M.A., ddwy noswaith i'r Van yn ei chartref uchel, mewn hwyl dda o siarad, a chafodd ei sylwadau goddidog dderbyniad brwdfrydig gan yr ychydig a ddaethai yn nghyd yr ail nos. Cyflwynaf fy niolchiadau fil iddo ef, i'r Parch. D. J. Evans, ac i'r Parch. M. Evans, Highland Place, yr hwn a roddodd gymhorth anmhrisiadwy i mi yn ystod yr arosiad o bedair noson yn Aberaman. Mae presenoldeb cewri fel hyn yn ysprydoliaeth i'r cenhadwr, ac yn help i'w wneud yntau yn gawr. Wel, am yr argraff y mae'r oll wedi adael arnaf, carwn ddweyd fod ymweliad y Van âg ambell i le yn rhy fyr i wneud nemawr o les. Yn mhob lle ceir nifer o bobl ieuainc yn crefu am y 'ffordd well,' dylid gwneud arosiad o amryw wythnosau, a dylid dilyn yr ymweliad gan gyfarfodydd yn cael eu dwyn yn mlaen gan rai o'n gweinidogion mwyaf blaenllaw. Os gwneir hyn, credaf y gellir sefydlu eglwysi blodeuog mewn byr amser. Carwn wasgu hyn ar ystyriaeth ein dwy gymdeithas yn Nghymru. Caed hyn eu sylw, a gwnaed parotoadau ar gyfer cenhadaeth lewyrchus eto yn ystod y gauaf sydd yn dod.

J. HATHREN DAVIES.

TAIR WYTHNOS AR Y VAN.

Gan y Parch. D. G. Rees, Penybont-ar-Ogwy.

Pan gyrhaeddais y Fan ar y Cae Ffair yn Llanelli, nos Iau, y 9fed o Orphenaf, nid oeddwn yn hollol ddieithr i "Eglwys y ffordd agored" am fy mod wedi bod yn cynorthwyo y cenhadwyr am un noswaith yn Barry, un yn y Wîg, dwy yn Penybont, a thair noswaith yn Maesteg. Yr oedd yn gwlawio'n drwm y noson hon, ac yr oedd cyfarfod allan o'r cwestiwn. A chan fod cyfarfod allan o'r pwnc, bu Mr. Arthur Barnes, y *Lay Missioner* trefnus a gofalus, yn datguddio i mi fy nyledswyddau tra ar y Van. Dangosodd pa fodd yr oedd y sedd ar ben pellaf y Van yn cuddio, nid yn anhebyg i'r hen sciw yn ardal Cwrtnewydd, ddillad gwely a llawer o nwyddau ereill. Dangosodd y modd i mi wneud fy ngwely; ac i sychu y llestri tê, er mwyn i mi fod yn Vanwr yn ngwir ystyr y gair. Teimlai y gwely ar y sedd dipyn yn galed ond ai nid oeddwn pan yn ieuanc wedi bod yn cysgu mewn *bunk* ar fwrdd llong am dair blynedd? Ac yr oedd y gwely yn y Van yn gymaint rhagorach na'r *bunk*, ag ydyw yr Hotel Cecil yn rhagori ar y Blue Bell, Cwrtnewydd. Yr oedd ffrâm gwely Mr. Barnes yn debyg i gyfansoddiad dyn,—gellir dywedyd am dani 'mai rhyfedd ac ofnadwy ei gwnaed.' O bethau'r byd yr oedd y tebycaf a welais i *goncertina* mawr. A'r peth oedd yn fy mlino oedd fod hono wedi ei lledu rhyngof ac allan. Methais a chysgu yn hir wrth geisio dychmygu beth gymerasai le pe bai y Van yn cymeryd tân. Nid oeddwn y pryd hwnw wedi deall fod haner uchaf y drws yn agor yn anibynol i'r rhan isaf, ac y gallwn trwy ddringo dros gorph Mr. Barnes gilio allan pe bai y stove paraffin yn cymeryd tân.

Galwodd Mr. Spedding, goruchwyliwr y Genhadaeth yn y Van. Daeth i Ddeheudir Cymru er mwyn ymddangos yn llys yr heddgeidwaid yn Ammanford. Y mae yn hynod, a dweyd y lleiaf, mai yr unig anhrefn gafwyd yn werth ei gofnodi mor belled gan y Genhadaeth, a gafodd ei achosi yn gyfangwbl gan y bobl sydd yn cael ei cadw a'u talu i gadw heddwch a threfn. Nis gellir gadael y mater o ymddygiad y polîs orphwys lle y mae. Nid ydym yn gofyn am freintiau uchlaw pobl ereill, ond ni byddwn foddlawn ar ddim yn llai. Y mae genym yr un hawl defnyddio y ffyrdd dan yr un amodau ag unrhyw enwad neu fudiad arall. Gwrthodwyd lle i'r Van Undodaidd mewn un dref yn hollol benderfynol gan y Superintendent—cyn pen bythefnos yr oedd y *Conservative Van* yn sefyll ar ysmotyn a wrthodwyd i ni; ac yr oedd y cyfarfod y mwyaf ystwrllyd a welais erioed yn yr awyr agored, a hyny ar nos Sadwrn pan oedd llawer o bobl o amgylch, a diwydrwydd yn myned yn y blaen, ond ni ymyrwyd o gwbl a'r cyfarfod.

Cafwyd cyfarfodydd da iawn yn Llanelli. Gwerthwyd hefyd lawer iawn o draethodynau, yn gosod allan egwyddorion Cristionagaeth Undodaidd a Duwinyddiaeth Rydd. Y tyrfaoedd yn rhifo ar gyfartaledd rhwng pump a chwe' chant. Ar nos Sul yr oedd yn bresenol rhwng deuddeg a thri cant-ar-ddeg. Ond ni chawsom ddim canu. Yr oedd hyn yn siomedigaeth i rai. Pe bawn yn cael wythnos o genhadaeth eto mewn tref boblog fel Llanelli gwnawn drefniadau arbenig ar gyfer yr emynau a'r canu. Rhyfedd y nifer o bobl wedi eu hail eni sydd yn Llanelli. Credaf fod mwy o'r rhai hyn yno i'r erw nag unrhyw dref arall o'i maint ag y gwn am dani. Cawsom dipyn o'n blino gan y frawdoliaeth hon. Yr unig *blackguard* a gyfarfyddais yn y dref

oedd un sydd yn crio o benau y tai ei fod wedi ei ail eni. Dywedais wrtho fy mod yn hyderu y cawsai ei eni unwaith eto, i gael gweled a wnai hyny, sef cael ei eni y drydedd waith, wneud Cristion o hono. Er fod yr hen gythraul wedi ei daflu allan efallai, y mae y perygl yn fawr y daw balchder ysprydol yn ol i'r tŷ a saith cythraul gwaeth nag ef ei hun gydag ef; ac y bydd diwedd y dyn hwnw yn waeth na'i ddechreuad.

Ymwelwyd a ni yma gan wr ieuanc sydd yn parotoi ar gyfer y weinidogaeth yn un o'r enwadau poblogaidd; ond yr hwn sydd a'i fwriad ar ymuno a'n henwad, am ei fod wedi tyfu allan o'r hen syniadau. Ceir clywed oddiwrtho cyn bo hir. Siriolwyd fi i weled rhai o'm hen gyfeillion o ardal Cwrtnewydd yn y cyfarfodydd. John Thomas, Frondes, yr hwn sydd yn arweinydd y gân mewn capel ag un o'r cynulleidfaoedd mwyaf yn y dref. Gelwais yn y tŷ, lle y croesawyd fi yn wresog gan ei wraig siriol, a'i blant ieuainc ond lluosog. Hefyd Inspector John Jones, Trafle. Bum ar dê ganddo ef a'i wraig groesawgar, a'i ferched glandeg. A melus oedd yr ymgom am yr hen ardal, a'r hen gymeriadau:—Sian Cwmmawr, a Kitty Tynyfron, a llawer ereill nas gallaf eu henwi. Rhyfedd fel y mae cariad brawdol yn uno, lle y mae sectariaeth a dallbleidiaeth yn gwahanu.

Yn y cyfarfod olaf yn Llanelli dygais ar gof i'r rhai oedd yn bresenol y driniaeth gafodd Mr. Davies, Alltplacca yn yr Athenæum Hall ychydig dros ddeg mlynedd-ar-hugain yn ol. Gorfu iddo ef ymadael a'r lle ag ysgrechiadau a bloeddiadau y penboethiaid dallbleidiol yn ei glustiau—y rhai oeddynt wedi dod dan arweiniad gweinidogion Efengyl Tangnefedd, yno o'r cyfarfodydd gweddi—ddim yn anhebyg i'r bwystfilod gwylltion y gorfu i Paul ymladd a hwynt yn Ephesus. Tra yr oeddwn i a'm cyfaill yn ymadael heb ddim yn fwy anymunol ac anghydsain yn ein clustiau na *chimes* melodaidd y *Town Clock*. Cymaint y mae pobl yn wareiddio mewn deg-mlynedd-ar-hugain. Crewyd llawer iawn o ddyddordeb. Yr oeddym fel rheol yn gorfod rhoi tua haner awr bob nos ar ol yr anerchiad i ateb cwestiynau. Ac yn gyffredin yr oedd dau neu dri twr o bobl o gwmpas y Van, yn dadleu y pynciau fuwyd yn drin yn y cyfarfod, hyd tuag un-ar-ddeg o'r gloch.

Un boreu ar ol cyfarfod lluosog, a dadleu brwd ar ei ol, sylwodd Mr. Barnes a minau fod yno nifer anarferol o fotymau o gwmpas y Van. Buom yn ceisio dyfalu am beth amser pa fodd i gyfrif am hyn, a'r penderfyniad y daethom iddo oedd, fod cynifer o'r duwinyddion anffaeledig oedd yn ein cyfarfodydd bob nos, ar y noson hon yn arbenig yn chwyddo gan falchder iawnffyddol nes yr oeddynt yn colli eu botymau fel cnau yn mis Hydref. Ai dyna yr eglurhad cywir nis gwn. Ymadawyd a Llanelli ar ddiwrnod gwlyb dros ben. Y gwlaw yn disgyn yn genllif trwy y dydd. Gosodwyd y Van i lawr yn y Fair Field yn Loughor, cartref y *Revival*. Nid wyf yn ei alw yn ddiwygiad, Mr. Golygydd, am resymau digonol i mi. Yr oeddym yn dra phryderus pa fath groesawiad gawsem yma. Cliriodd y gwlaw tua wyth o'r gloch. Yr oedd gan y Blaid Anibynol Llafur gyfarfod yma, am y tro cyntaf mae'n debyg. Cawsant gyfarfod gweddol luosog. Gwelais yn union nad oedd y Sais oedd ganddynt fel siaradwr yn gallu cadw eu sylw. A chyn gynted ag y terfynodd, anerchais y dorf, o tua chant a phump-ar-hugain erbyn hyn, yn Gymraeg, ar ein neges a'n hamcan. Tranoeth buom yn dosbarthu hysbysleni a llenyddiaeth Undodaidd yn weddol drwyadl. Pan ddechreuwyd y cyfarfod yr oedd yno tua dau cant o bobl. Cawsom gwrdd da. A llawer iawn o ofyniadau, ac ar y cyfan yr oeddem wedi gadael argraff weddol ffafriol. Daeth llawer i'r Van oeddynt mewn cydymdeimlad â'r Efengyl Rydd oeddym yn draethu. Cawsom hefyd ar ddeall fod yma lawer o bobl ieuainc y rhai ydynt yn hiraethu am rywbeth mwy rhesymol, ac yn fwy

unol a gwybodaeth yr ugeinfed ganrif na'r hyn y maent yn arfer glywed. Y mae eithafion *revivalism* yn creu gwrthdeimladau cryfion. Gelwais yn nhy rhieni Evan Roberts. Yr oeddwn yn awyddus gael ymgom a'i fam, oblegyd y mae yn ymddangos i mi yn ol ei darlun ei bod yn wraig o garitor cryf, ond yr oedd yn rhy brysur gyda'i gorchwylion teuluaidd ar ddydd Gwener i allu gwel'd ymwelwyr. Cefais bob serchowgrwydd gan Mr. Dan Roberts, a chefais ymgom ddyddorol ganddo yn y parlwr bach y clywsom gymaint son am dano yn y papyrau yn amser y *Revival*. Bum yn y capel lle y cychwynodd y mudiad gyntaf yn yr ardal. Bum yn siarad a llawer o bobl sydd yn gwybod ei holl hanes mor bell ag a fyno a'r ardal. A'r casgliad ddaethum iddo oedd, fod y phariseaeth, y balchder ysprydol, yr anfrawdoldeb, y rhwygiadau yn yr eglwysi, yn fy ngorfodi i ddod i'r penderfyniad fod y drwg sydd wedi deilliaw oddiwrth y mudiad yn gorbwyso ei ddaioni. Aethum i Loughor yn credu llawer iawn yn y *revival*, daethum oddiyno wedi fy nad-hudoli. Dwy noswaith y buom yma, sef nos Iau a nos Wener, yr 16eg a'r 17eg o Orphenaf. Cawsom lawer iawn o'r bobl ieuainc i ddatgan eu cydymdeimlad a ni. Gwerthasom lawer iawn o'n traethodynau. Fel arwydd o'i gydymdeimlad â'n cenhadaeth ryddfrydig, talodd gorchwyliwr y lofa yn y lle, sef Mr. Harding, am symud y Van i Gowerton, ac i Gorseinon. Y mae y boneddwr hwn yn llawnodi ei hun fel Universalist. Un o'r prawfion eto fod yr hen Iawnffyddiaeth yn dadleth fel y llwydrew o flaen yr haul yn nechreu mis Mawrth.

Buom yn Gowerton ar y 18fed, 19eg a'r 20fed. Y mae yn werth ei gofnodi yma ein bod wedi cael pob cydymdeimlad a phob cymhorth gan Inspector y Polis. Ymddygodd tuag atom fel yr hyn y credaf ei fod—boneddwr a Christion. Mynychodd ein holl gyfarfodydd, 'rwy'n meddwl. Os gwel y llinellau hyn, dymunaf trwyddynt ddiolch yn garedig iddo. Cawsom ddau gyfarfod yma ar y Sul—un yn y prydnawn a'r llall yn yr hwyr am wyth o'r gloch. Dyma yr unig fan lle y cawsom ganu yn ystod y genhadaeth. Bu arweiniwr y canu yn nghapel yr Anibynwyr Seisnig mor garedig a dyfod i gychwyn y canu. Ar nos Sul yr oedd yn ein cyfarfod tua phedwar cant o bobl—cyfartaledd uchel allan o boblogaeh o ddwy fil. Ar nos Lun daeth un o'r 'Gwŷr y Sicrwydd'—sect newydd, debygwyf—o Gorseinon yn arbenig i waeddi arnaf pan yn anerch y cyfarfod nad oeddym yn Nghrist. Dywedais wrtho am aros hyd at derfyn fy anerchiad y cawsai ofyn cwestiwn fynai. Ond atebodd y gallasai fod yn uffern cyn hyny. Ceisiais ei berswadio i beidio bod mewn cymaint o frys, yr elai yno yn ddigon buan. Ar hyn dyma yr Inspector—bendith ar ei ben—yn gorchymyn y penboethyn ymaith, ac yr oedd ynddo yntau ddigon o ddoethineb bydol i ufuddhau.

Ar ddiwedd y cyfarfod daeth dyn ataf, yr hwn sydd yn llanw lle pwysig yn y lle, a dywedodd y buasai ef mewn *jiffy* yn taro y sawl a ymyrodd â'n cyfarfod i lawr, oni b'ai iddo fyn'd o'r cyfarfod mewn pryd. Diolchais yn wresog iddo am ddangos ei gydymdeimlad, a'n bod bob amser yn gwerthfawrogi pob gweithred gynorthwyol, ond ein bod yn tynu y llinell cyn dod at daro ein gwrthwynebwyr i lawr. Tueddir fi yn gryf i symio i fyny ein profiad yn ngeiriau y diweddar Iarll Shaftesbury, pan yr oedd yn ei hunan-fywgraffiad yn rhoi hanes ei ymdrechion o blaid y gwan a'r gorthrymedig, 'Y seintiau i'm herbyn a'r pechaduriaid o'm tu.' O Gowerton awd i Gorseinon. Rhybuddiwyd ni yn Loughor a Gowerton i fod yn barod i dderbyn llawer o ymosodiadau ac ymyraeth â'n gwaith yn y lle hwn. Dywedodd un o fechgyn ieuanc Loughor wrthym y buasem yn sicr o gael trafferth yma. A dywedodd pe b'ai yn gwybod y gwnai hyny help i ni y buasai yn dod a'r *brass band* o Loughor i fod yn barod ar gyfer y gwaethaf.

A phan y rhoddwyd y Van i lawr ar y *green* yn nghanol y pentref, teimlem ein bod mewn gwirionedd yn nhiriogaeth y gelyn. Ond bob yn dipyn daeth golwg well ar bethau. Talwyd ymweliad â ni gan Mr. Thomas y Cabinet Maker—brodor o Landyssul,—yr hwn sydd erbyn hyn yn gallu cydymdeimlo â ni i ryw fesur am ei fod ef ei hun wedi gorfod sefyll ei brawf yn ddiweddar o flaen ei frodyr yn yr eglwys Fedyddiedig am heresi. Y maent yn ofni nad ydyw yn iach yn y ffydd. Ac fel heretic rhoddodd groesaw i hereticiaid duach fyth i Gorseinon. Ac yn union deg, dyma wyneb siriol Mr. David Davies, Plasycoed, Gorseinon, yn ymddangos yn nrws y Van, ac yn dyfod i fewn fel un ag awdurdod ganddo. Ac yn wir pwy all fod a mwy o hawl? Onid oedd Mr. Davies yn un o'r ychydig oedd yn cefnogi Mr. Davies, Alltplacca, yn yr Atheneum Hall, Llanelli, ar y noson fythgofiadwy hono dros ddeng mlynedd ar hugain yn ol? Ai nid yw wedi bod yn Undodwr cyson byth oddiar hyny? Y mae Mr. Davies wedi bod yn dilyn ei orchwyl yn mhlith Pabyddion Yspaen a'r Orthodox Rwsia am flynyddau, ond nid ydyw wedi gweled dim sydd yn llwyr foddloni ei reswm a'i gydwybod fel Cristionogaeth Undodaidd. Cawsom groesaw calon gan Mrs. Davies—un o'r gwragedd mwyaf diwylliedig y cawsom erioed y pleser i siarad â hi, ac y mae yn un o'r ychydig Gymryesau sydd yn medru mwynhau *Don Quixote* yn yr iaith wreiddiol. Dyma Gardi eto mor llon a serchog ag sydd modd, sef Mr. James Davies, Draper, Paris House, gynt o Dalgareg, ac yn briod â merch y Fadfa. Nid oedd yn awr le i mi gysgu yn y Van am fod Mrs. Barnes wedi dod ar ymweliad â'i gwr. A dyma finau yn mwynhau lletygarwch y cyfeillion anwyl hyn tra fum yn y lle. Mor ddedwydd yw Mrs. Davies yn mhlith ei phedwar plentyn llewyrchus, ond ieuainc. A phryd yr anghofiaf lais clir, clochaidd yr un bychan ieuengaf ond un? Pe b'ai pobl ardal Talgareg yn ei glywed buasai yn anocheladwy ddwyn ar gof iddynt lais clir, clochaidd ei dadcu—David Thomas y Fadfa Anibynwr o ddygiad i fynu ac argyhoeddiad yw Mr. James Davies, ond buasai yn fendith pe b'ai pob Undodwr mor gefnogol i'r genhadaeth ag y bu ef. Yr oedd tyrfa dda yn y cyfarfod cyntaf, ac adran gref yn eu mysg yn wrthwynebus i'r cenhadwr. Yr oedd hyn yn amlwg oddiwrth y Beiblau agored, fel pe na ymddiriedent iddo ddyfynu dim o'r Ysgrythyr heb ei wylied rhag iddo eu camarwain. Yr oedd yno hefyd ryw fân gintach a chwyno, fel pe buasent mewn cryn dipyn o boen corfforol. Ond er syndod mawr i mi cefais bob chwareu teg i orphen fy anerchiad. Ac er syndod mwy fyth ni chefais yr un cwestiwn! Ond cyn gynted ag y cyhoeddwyd fod y cyfarfod ar ben, dyma y teimladau oeddynt wedi cael eu cadw i fewn tan wasgfa ofnadwy mi wn, yn tori allan. Dechreuasant ganu, a chanasant mewn hwyl hefyd; —'Nothing but the blood of Jesus,' os wyf yn cofio yn iawn oedd yr emyn. Buwyd yn gweddio yn ddwys a thaer trosom. Dynoethwyd ein haddysg a'n hathrawiaethau yn ddidrugaredd. Nid oeddwn, Mr. Gol., yn credu hyd yn hyn fod ein cenhadaeth mor bwysig yn ngolwg Rhagluniaeth; ond profwyd yn glir i ni, tu hwnt i un amheuaeth, fod yr Ysbryd Glân wedi prophwydo am danom er ys deunaw canrif yn ol. Waith yr oeddym yn gyflawniad o'r brophwydoliaeth y byddai yn y dyddiau diweddaf—(yn sicr, nid yw diwedd y byd wrth y drws eto: y mae llawer o lô yn y ddaear yn ardal Gorseinon, a rhoddwyd ef yno i ryw amcan)—i gau athrawon gyfodi ac y byddai iddynt dwyllo, pe byddai yn bosibl, hyd yn oed yr etholedigion! Daeth un o'r brodyr hyn ataf ar ddiwedd eu cyfarfod ac a'm cysurodd trwy ddweyd fy mod yn golledig ac ar y ffordd i uffern. Dywedodd y byddai yn gweddio trosof y noson hono. Awgrymais iddo y byddai yn well iddo efallai weddio dros ei bechodau ei hun. Dywedodd eu bod oll

wedi eu maddeu! Yr oedd yn un o'r digwyddiadau mwyaf *amusing* fy nghenadaeth. Aeth y sï allan am gyfarfod y *revivalists*, a nos tranoeth yr oedd yno dyrfa fawr o rai mewn cydymdeimlad â ni wedi dod o Loughor a Gowerton. Pan ddechreuwyd cwestiyno gwelwyd fod yspryd y noson flaenorol yn bresenol, ond dangosodd y dyrfa yn ddigamsyniol nad oedd dim o *nonsense* y noson flaenorol i gymeryd lle heno. Dyma un o'r cyfarfodydd goreu gawsom.

Gwerthwyd mwy o lenyddiaeth Undodaidd yma nac yn un lle arall mewn un noswaith oddiar dechreuad y Genhadaeth yn Newport. Derbyniwyd am draethodynau ceiniog bron yn gyfangwbl rhwng 12s. a 13s. Gwnawd yn rhagorol tuag atom yn Llanelli, Loughor a Gowerton. Ond er gwaethaf y bygwth, ti Gorseinon a ragoraist arnynt oll. Cawsom fwy o wahoddiadau i fyn'd allan i gael bwyd nad oedd o brydiau yn yr amser oeddym yno. Danfonwyd blodau i'r Van nes yr oedd ei hawyr yn drwm gan yr arogl. Eglwyswyr a Methodistiaid yn eu danfon gyda'u bendithion fel arwydd o'u dymuniadau da i'r genhadaeth. Beth ydych chwi, Undodiaid sydd ag arnoch ofn cydnabod mai dyna ydych, yn ddweyd yn ngwyneb peth fel hyn? Ai nid oes arnoch gywilydd am eich llwfrdra? Yr oedd ein gwaith yn llwyddianus yn y manau eraill y buom ynddynt, ond yr oedd yn fuddugoliaethus yn Gorseinon.

Os caniata y Gol., cewch hanes y drydedd wythnos yn y rhifyn nesaf.

PRIODAS.

AWST 14, yn Methel, Silian, gan y Parch. D. Jones (B.), gweinidog, Mr. John Jones, Pantyrhew, Llangeitho, a Miss Jane Davies, merch Mr. Samuel Davies, Coedparc, Betws, Ceredigion. Pob bendith a ddilyno'r undeb.

MARWGOFION.

GORPHENAF 15, Johnny, mab Ivy a Frances Jones, Pantyryn, Llansilio, yn 17 oed. Bu farw yn hynod sydyn tra'n dilyn ei waith; bu farw'n gynar pryd oedd ei rieni yn dechreu ymddibynu arno am ei gynorthwy a'i gynghor; bu farw pan nad oedd ond yn dechreu byw: machludodd ei haul tra yr oedd hi eto'n ddydd. Deallwn ei fod o gymeriad addawol a gonest, yn un a berchid gan ei gymydogion, ac felly gwelir ei eisiau mewn llawer cylch. Claddwyd y Llun canlynol yn Llwynrhydowen. Gwasanaethwyd yn y ty ac ar làn y bedd gan Mr. Davies, Rheithor Llansilio, ac yn y capel gan y Parch. E. O. Jenkins.

'Y saint un niwed fyth ni chânt :
Cymylau dua'r nen
Sy'n llawn trugaredd, gwlawio wnânt
Fendithion ar eu pen.'

GORPHENAF 27, yn Penrhiw, Dihewid, bu farw Anne Howells, chwaer Mrs. Thomas, o'r lle uchod, yn 70 oed. Dyoddefodd gystudd maith a chaled, a gweiniwyd arni yn dyner a gofalus gan ei chwaer drwy'r oll o'r amser. Claddwyd ei gweddillion yn mynwent Cribyn dydd Iau canlynol, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y gweinidog.

AWST 4, yn 45 oed, Margaret Herbert, merch y diweddar David a Mary Herbert, gynt o Foelcwmfach, ger Mydroilyn. Yn ystod y pum' mlynedd diweddaf yr oedd yr ymadawedig yn ngwasanaeth Mr. Williams, Maespwll, yn ardal Talgareg, ac yn ystod yr amser hwnw enillodd iddi ei hun wir barch a chydymdeimlad. Yr oedd yn weithgar a didwyll, a phan allai, parod oedd i estyn cynorthwy i eraill. Bu yn ufudd ac amyneddgar yn ei chystudd, ac aeth ar gais ei meddyg i Abertawe o dan driniaeth feddygol, lle y bu farw. Claddwyd hi y dydd Gwener canlynol yn Bwlchyfadfa, lle yr oedd yn aelod ffyddlawn. Gwasanaethwyd ar yr achlysur yn effeithiol iawn gan y gweinidog. Gadawodd i alaru ar ei hol un ferch, un brawd, a phedair chwaer. Bydded i'w merch ieuanc, yr hon sydd yn wanaidd ei chyfansoddiad, dderbyn tynerwch a charedigrwydd ei pherthynasau a'i chymydogion, yn nghyd a gofal Tad yr amddifaid. Boed iddi hefyd gofio geiriau tyner ei mam,—'Bydd yn ferch dda.'

AWST 6, yn 12 mis oed, John Edward Jones, anwyl blentyn David ac Anne Jones, 1, Mill Street, Llanbedr. Claddwyd yn mynwent Alltyplaca, a gwasanaethwyd ar yr achlysur yn y ty gan Mr. Davies, myfyriwr, ac yn y capel a'r fynwent gan y gweinidog.

AWST 15, yn 42 oed, Hannah Thomas, Yetgoch, Ffoshelyg, merch y diweddar William ac Eleanor Thomas, Pencarniced, Llandyssul. Claddwyd ei gweddillion marwol y dydd Mawrth canlynol yn Pantdefaid, pryd y gwasanaethwyd gan y gweinidog.

MANION AC HANESION.

ADRAN YR YSGOL SUL. — Dymunir cydnabod gyda diolchgarwch y casgliadau canlynol : Graig, Llandyssul, 13s. 8½c. ; Hen Dy Cwrdd, Aberdar, 5s. ; Pantdefaid, 10s. Rywfodd cafodd enwau y rhai canlynol o Ysgol Sul Trebanos eu gadael allan o restr y rhai a basiodd yn yr ail safon : Winnie Morgan, Gwendolen Morgan, Sarah A. Davies, Mary Davies, Dilla Saunders.—L.W., YSG.

CAPELYFADFA. — Nos Iau, Awst 6, ar achlysur cynhaliad Cyrddau Chwarterol Anibynwyr Ceredigion a chyrddau sefydlu gweinidog newydd yn Pisgah, Talgareg, bu dau bregethwr perthynol i'r Anibynwyr, sef y Parch. J. M. Prydderch, y Wern, a Mr. Jones o Goleg Caerfyrddin, yn pregethu yn Capelyfadfa. Cafwyd cyfarfod ardderchog, a da genym am yr yspryd brawdol a ffyna.

CAPELYCWM. — Dydd Gwener, Awst 14, cafodd aelodau Ysgol Sul y Cwm a'u cyfeillion wledd ragorol o dê trwy garedigrwydd Mrs. Davies a Mr. a Mrs. Jones, Brynllwyd. Mae y teulu yma yn cymeryd dyddordeb

mawr yn y Cwm, canys trwy eu caredigrwydd yr anrhegwyd y gynulleidfa â llestri cymundeb arian ar eu symudiad i'r capel newydd tua dwy flynedd yn ol. 'R oedd yr hin yn ddymunol iawn, fel y cynhaliwyd y wledd yn yr awyr agored. Dechreuwyd y tê am dri o'r gloch, ac ar ol boddio ein hunain wrth y bwrdd ni a dreuliasom brydnawn chwareugar iawn ar y Llain. Yn yr hwyr cynhaliwyd cyfarfod rhyfeddol o lwyddianus, yr hwn oedd o ran yn gystadleuol. Cymerwyd y gadair gan ein parchus weinidog, ac arweiniwyd y cyfarfod mewn modd meistrolgar iawn gan Mr. Gwarnant Williams, Y.H. Barnwyd y canu gan Mr. T. Davies, Cwrtnewydd, a hyn mewn modd hollol ddymunol ac effeithiol. 'R oedd y capel yn orlawn, a chyn gorphen y rhaglen gorfodwyd terfynu y cyfarfod o achos hwyredd yr amser. Cafwyd gwledd a chyfarfod pleserus a llwyddianus dros ben.

RHYDYGWIN.—Dydd Sul yr 2il o Awst, talodd Ysgol Sul Capelyfadfa ymweliad â Rhydygwin. Yr oedd y diwrnod yn ffafriol,—y ffurfafen glir yn mynegi nad oedd perygl i ystorm gyfodi, ac yn codi awydd yn mynwes pob aelod o'r ysgol am ymuno yn yr ymdaith. Felly cawsom weled ysgol Capelyfadfa yn ei nherth, a da oedd genym ei gweled yn ysgol mor luosog. Ond nid lluosogrwydd yw yr unig rinwedd a berthyn iddi: amlygodd ei bod yn ysgol fyw a gweithgar. Yn ychwanegol at adrodd penod ac ateb cwestiynau holwyd arni, yr hyn a wnaeth yn dda, canodd dair anthem, a chanodd y plant ddwy dôn. Arweiniwyd y canu gan Mr. Thomas, Greengrove, Talgareg, a Mr. J. R. Thomas, C.M., Pontshan. Chwareuwyd ar yr organ gan Miss Thomas, Greengrove, Talgareg. Darparodd eglwys Rhydygwin ymborth iddynt, a chredwn i bawb fwynhau eu hunain yn dda. Yn yr hwyr daeth cynulleidfa luosog yn nghyd i glywed Mr. Jenkins, gweinidog Capelyfadfa, yn pregethu, a phregethodd yn dda, fel yr ydym wedi ei glywed bob amser.

ABERDAR. — Bydd yn dda gan gyfeillion i weled fod y brawd ieuanc Dan Davies o Highland Place, Aberdar, wedi pasio yn llwyddianus y gradd o A.C. mewn cerddoriaeth dan y Tonic Solfa College, Llundain.

GALWAD.—Bydd yn dda gan luaws cyfeillion Mr. S. E. Bowen, mab Mr. John Bowen, Llwyneinon, Castellnewydd, glywed ei fod wedi derbyn galwad wresog ac unfrydol iawn oddiwrth yr eglwys Undodaidd yn Crumlin, swydd Antrim, Iwerddon, i fod yn weinidog iddi. Y mae Mr. Bowen newydd orphen ei gwrs efrydol yn Ngholeg yr Home Missionary, Manchester, ac ä i'r Iwerddon gyda dymuniadau da nifer fawr o gyfeillion. Bwriedir ei ordeinio yn nechreu Medi.

'PERLAU MOLIANT.' — Dymunir galw sylw ein holl eglwysi Cymreig at waith y Gymdeithas yn pwrcasu gweddill copiau 'Perlau Moliant' oddiwrth y perchenog, Mr. Eiddil Jones. Ar hyn o bryd nid oes ond 120 ohonynt heb eu gwerthu, ac ar ol gwerthu y rhai hyn ni fydd yn bosibl cael copi am un arian. Danfoned yr eglwysi hyny ydynt mewn angen am dano yn ddioed, neu bydd yn rhy ddiweddar. Ei bris ydyw 1/9, drwy y post 2/-. Gyrer pob archebion i Drysorydd y Gymdeithas, Mr. John Evans, Cyfreithiwr, Llandyssul.

JENKIN JONES (Llwynrhydowen). —Paham na ellir dyfod o hyd i amser marw Mr. Jones? Dywed T.C.U., ar sail llythyr oddiwrth y Parch. William George Jenkins, ficer Llandyssul y pryd hwnw, iddo gael ei gladdu Mehefin 4, 1742,—YMOFYNYDD 1886, tud. 41, ac yn ei fywgraffiad o hono yn YMOFYNYDD 1891, tud. 27, dywed yr un peth. Yn 'Hanes Plwyf Llandyssul,' tud. 160, dywedir mai ar y 30ain y claddwyd ef; dywed y Prifathraw W. J. Evans mai ar yr 20fed y cymerodd hyny le (Lloyd Letters, tud. lii.). Sut mae cyfrif am yr amrywiaeth? Dywedodd y ficer Jenkins wrthyf, a hyny ar ol darllen llyfr Davies, fod y *date* fel y rhoddwyd ef i mi yn wreiddiol yn iawn. Ni ddylai fod yn anhawdd

penderfynu y pwnc hwn dybiaf. Beth dybiwch chwi, Mr. Gol.?—T.C.U.

Yn y 'London Welshman & Kelt,' am Gorphenaf 25, ymddangosodd erthygl ddyddorol wedi ei chodi o'r 'Unitarian,' yn dwyn y penawd: From Welsh Methodism to Unitarianism. Dywed yr awdwr iddo ddechreu pregethu yn 16eg oed, a cheisiwyd ganddo fyned i'r coleg i'r Bala; ond tebyg ei fod eisoes yn dechreu pererindodi. Nid oedd ei duedd ar y pryd yn y cyfeiriad hwnw. Dechreuodd amheu. Darllenodd y Beibl drosto dair gwaith a methodd gael Trindod ynddo yn un man. Wedi treiglo o un capel i'r llall, perthynol i'r gwahanol enwadau—hyd yn oed y Swedenborgiaid a'r Ysprydegwyr—yn ceisio yn ofer am esmwythder i'w feddwl. Tosturiai ei gyfeillion wrtho. O'r diwedd daeth i'w law lyfr yn dwyn yr enw 'Via, Veritas, Vita' (o'i gyfieithu, Y Ffordd, y Gwirionedd a'r Bywyd). Cafodd foddlonrwydd mawr ynddo, a danfonodd adolygiad ffafriol iawn o hono i'r 'Faner.' Yr oedd wedi adolygu i'r 'Faner' lawer gwaith o'r blaen, ac wedi cael derbyniad groesawgar; ond y tro hwn fe'i gwrthodwyd. Nid oes drws agored i'r 'Faner' i bawb, er rhyddfrydiced yw yn wleidyddol.

Owen Dafydd.—Dygodd y cyfeiriad at y gân yn rhifyn Awst i'm cof eiriau yr Archesgob Whateley at famau ei oes ef yn dysgu yspryd erledigaeth i'w plant,—

'Old daddy longlegs
Won't say his prayers,
Take him by the hindleg
And pitch him down stairs.'

Cyflwyned Golygydd parchus 'Trysorfa'r Plant' y llinellau i sylw ei ddarllenwyr. Pwy ŵyr na chaiff ddiolch cyhoeddus ei enwad am ei wasanaeth.

Fe ŵyr darllenwyr Yr Ymofynydd am y Parch. D. Powell, ei fod y gweinidog mwyaf dylanwadol gyda'r Bedyddwyr yn Lerpwl. Cyhoeddodd esponiad gwerthfawr ar Zecharias yn ddiweddar, ac efe ydyw golygydd presenol yr 'Hauwr,' cyhoeddiad misol ag iddo gylchrediad helaeth. Rhyw ddeufis yn ol pasiodd Undeb Gweinidogion y Bedyddwyr y penderfyniad canlynol:—'Ein bod yn awdurdodi ein hysgrifenydd i anfon at ysgrifenydd Undeb y Bedyddwyr yn Nghymru i brotestio yn erbyn defnyddio'r 'Hauwr' i wasgaru gwenwyn Materolaeth ac Uwch Feirniadaeth. Amddiffynodd Mr. Powell ei hun yn 'Seren Cymru,' a phrofodd nad oedd y boneddigion hyn yn gwybod y nesaf peth at ddim beth yw Materolaeth. Wrth gwrs, anwybodaeth sydd wedi erlid erioed.

Y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

Llywydd:—Mr. J. R. Thomas, Pontshan.
Is-lywydd:—Parch. L. Williams, Rhydygwin.

Cynhelir y Cyfarfodydd Chwarterol nesaf yn Nhapelygroes, dyddiau Mercher ac Iau, Medi 30ain a Hydref 1af. Bydd gwasanaeth nos Iau am 6.30, a dydd Iau am 10, 2, a 6. Cyferfydd Pwyllgor y Gymdeithas boreu dydd Iau am 9, pryd y disgwylir i'r cynrychiolwyr a'r gweinidogion fod yn bresenol. Cyhoeddir manylion pellach eto trwy hysbysleni. Rhoddir gwahoddiad gwresog i bawb fod yn bresenol. Bydd cerbydau yn cwrdd a'r trên prydnawn dydd Mercher yn Llanybyther.

CHRISTR. THOMAS, & BROS, Ltd., Bristol,

Have the Leading Reputation in Wales for their

HOUSEHOLD & TOILET SOAPS

THE FAVOURITE QUALITY IS

CHRISTR. THOMAS, & BROS., LTD., BEST PALE

Which, as well as the other sorts, can be obtained, wholesale and retail, from

T. E. JONES & Co., LLANDYSSUL.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS,

General Draper, Milliner, Outfitter, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

A well Selected Stock of Capes, Jackets and Millinery always on hand. Juvenile and Boys' Suits a Speciality.

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

Funeral Wreaths, Crosses, Anchors, Harps, Lyres,

And other designs.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

HARRY COYSH, FLORIST AND SEEDSMAN,

NOTT SQ., CARMARTHEN.

Telegrams—Harry Coysh, Carmarthen

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all inquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, E. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Mrs. W. A. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

Ben Evans & Co's Series of Specimen Furnished Rooms

afford Practical Assistance in the task of Furniture Selecting. . .

The disappointment so frequently felt at the incongruities, which are practically inevitable when the several items are bought 'piecemeal,' is avoided and a great deal of time is saved by seeing the various articles placed in position at the time of purchase. . . . . .

BEN EVANS & Co., Ltd.

'THE HOUSE FOR QUALITY.'

Cabinet Furniture Dept.,
Caer Street,

Swansea.

Telegrams—Evans, Swansea. Telephone: No. 28.